# CLONC

www.clonc.co.uk

ISSN 1753-1071

Rhifyn 303 - 60c
Mai 2012

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Mwy o Eisteddfod yr Urdd**



Tudalen 20

**Dewi Pws yn y Gymanfa**



Tudalen 2

**Enillwyr Pêl-droed lleol**



Tudalen 9 a 11

# Llond lle o ddathlu




Ar Nos Wener y Groglith cynhaliwyd Dawns C.Ff.I Sir Gâr yn Nhafarn yr Hudd Gwyn, Llandeilo er mwyn cyhoeddi Llysgenhades a Dirprwyon newydd. Llysgenhades - Louise Jones, Cwmann, Dirprwyon - Carys Evans, Abernant, Catrin Davies, Llangadog, Mair Jones, Llanarthne, Buddug James, Penybont.



Charlotte Saunders o Ysgol Ffynnonbedr gydag arweinydd Côr "Only Kids Aloud". Bu Charlotte yn canu gyda'r côr yn Rwsia ac yng Nghanolfan Mileniwm.



Linda o fudiad TWF gyda Sam Tan yn diddanu'r plant, y mamau ac ambell fam-gu yn ystod degfed pen-blwydd y Ganolfan Deulu yn Llanybydder.

# Eisteddfod Capel y Groes



Nia Beca Jones, Blaencwrt yn ennill yr unawd dan 8 (cyfyngedig) ac ail am adrodd (cyfyngedig) a'i chwaer Megan Mai yn ennill yr unawd dan 12 (cyfyngedig) ac ail ar yr unawd 8-10 (agored).



Parti llefaru Ysgol Cwrtnewydd yn ennill y cyntaf yn Eisteddfod Capel y Groes.



Elin Davies, Cwmsychbant yn ennill y cwpan yn y llefaru 8-10 oed.



Enillydd yr unawd 8-10oed oedd Nia Eleri Morgans, Gorsgoch.


LAS Recycling Ltd



*Angen Sgip?*
Diwydiannol, Masnachol neu i'r cartref.
*Sgip i bob pwrpas*
Rhowch alwad i ni ar **01570 421421**

Ffordd Tregaron, Llambed, Ceredigion, SA48 8LT

CYFRi
CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS
23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY
T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:

**Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol a diogelwch incwm.**

Gary Davies BSc(Hons), Cert PFS
Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS
Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn ailfeddiannu am eich cartref.

Gorsaf Brawf MOT

**GAREJ BRONDEIFI**

Heol Llanfair Road, Llambed, SA48 8JX
* Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
* Teiars am brisiau cystadleuol
*Ceir newydd ac ail law ar werth
* Batris * Brecs * Egsost
*Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth
01570 422305
07974 422 305


# Dewi Pws yn y Gymanfa



Dewi 'Pws' Morris yng nghwmni plant Ysgolion Sul Capel-y-Cwm, Cwmsychpant a Chapel-y-Groes, Llanwnnen ar ddiwrnod eu Cymanfa Bwnc yng Nghapel Undodaidd Alltyblaca ar ddydd Sul, Ebrill 22ain. Dewi oedd y gŵr gwadd a chafwyd llawer o hwyl a sbort yn ei gwmni. Diolch iddo am roi o'i amser prin i ddod atom.

# Pwy yw pwy?

**Golygydd:**

| | | |
|---|---|---|
| Mai | Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach | 481855 |
| e-bost: | golygydd@clonc.co.uk | |
| Mehefin | Rhian Lloyd, Awel y Môr, Ffosyffin | 01545 571234 |
| Tîm Golygyddol: | Elaine Davies, Dylan Lewis, Rhian Lloyd, Marian Morgan a Delyth Morgans | |
| Dylunydd y mis: | Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann | 422349 |
| Swyddog Dosbarthu | Eifion Davies, Afallon, Drefach | 480590 |
| e-bost: | bedwyr@btopenworld.com | |
| Teipyddion | Nia Davies, Maesglas, Drefach<br>Joy Lake, Llambed | 480015 |

**Gohebwyr Lleol:**

| | | |
|---|---|---|
| Cellan | Alwen Edwards, Awel Teifi | 421001 |
| Cwmann | Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen | 422922 |
| Cwmsychbant | Mary Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| Llanwenog/Drefach | Mary Davies neu Eifion Davies | |
| Ffaldybrenin/Ffarmers | Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers | 01558 650507 |
| Gorsgoch | Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod | 434238 |
| Llambed | Janet Evans, Haulfryn | 422856 |
| Llanfair | Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn | 493407 |
| Llangybi a Betws | Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon | 493325 |
| Llanllwni | Dewi Davies, Glanafon | 480218 |
| Llanwnnen | Elin Thomas, 1 Teras Sycamor | 480239 |
| Llanybydder | Menna Jones, Ceginau Lifestyle | 480257 |
| Pencarreg | Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf | 422270 |

# Beth yw beth?

**Bwrdd Busnes:**

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd | Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann | 422349 |
| e-bost: | cadeirydd@clonc.co.uk | |
| Is-Gadeirydd | Marian Morgan, Glasfan, Drefach | 480490 |
| Ysgrifenyddes | Mary Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| Trysorydd | Nia Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| e-bost: | ysgrifennydd@clonc.co.uk | |
| Ceidwad y Camera | Janet Evans, Haulfryn, Llambed | 422856 |
| Ffotograffydd | Tim Jones, Llainwen, Llambed | 422644 |
| Argraffwyr | Gwasg Aeron, Aberaeron | 01545 570573 |

Gwerthfawrogir gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhaodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.

- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu llun plant i'w gynwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: **www.clonc.co.uk** os am fwy o wybodaeth.
- Beth am ddod yn ffrind i Clonc ar wefan gymdeithasol facebook: **www.facebook.com/clonc**
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

# Siprys

**Dim gwario ceiniog**

Y sôn ar y radio y bore yma fod y trysorlys yn gwneud ymholiadau parthed cael gwared ar y geiniog. Anaml iawn y byddaf i yn gwneud mwy nag edrych ar yr arian mân sydd yn fy mhoced a rhoi'r ceiniogau naill ochr nes bod yna ddigon i fynd i'r banc. Bydd hyn yn esgus da iawn i godi prisiau. Fy nghôf cyntaf i am y geiniog oedd mynd yn grwt i'r siop i brynu bara, 4½d y dorth. Tipyn o wahaniaeth erbyn heddiw gyda phris torth fach yn 98 ceiniog. Fe gofiwn fel y bu i brisiau godi'n aruthrol gyda dyfodiad arian digidol. O ie, rhaid cofio fod gwario ceiniog wedi troi i fod yn wario 20 ceiniog erbyn heddiw.

**Stampiau yn codi**

Tybed a ydi hyn yn mynd i wella sefyllfa'r Post Brenhinol neu a fydd llawer o bobol yn danfon cyfarchion dros y we neu unryw gyfrwng arall. Fe fydd yn siwr o wneud tipyn o wahaniaeth wrth ddanfon cardiau Nadolig. Fe fydd cyfle, siwr o fod, i chi fynd â'ch cyfarchion o dŷ i dŷ. Cyfle wedyn i chi gael clonc gyda derbynydd eich cyfarchion – llawer mwy derbyniol na derbyn cerdyn yn unig. Bydd danfon ein 'Clonc' i danysgrifwyr yn costio mwy hefyd. Gobeithio na chollwn ni ddim darllenwyr.

**Mae'n broblem!**

Beth sy'n fy mhoeni y mis yma? Yn syml, methu ag agor pecynnau. Maent yn sicrhau na gwympyth dim allan o becyn fel eu bod hefyd yn sicrhau nad ewch i byth i mewn. Yr enghraifft orau yw am berson yn prynu siswrn ac yn gorfod cael gafael mewn siswrn arall cyn cael y cyntaf allan o becyn. Problem arall yw'r cwmnïau sy'n dod allan â chynnyrch newydd o dan yr un enw a hwnnw ddim yn ffitio yr hen offer. Digwyddodd hyn i fi wrth brynnu llafn i rasal (razor blades). O edrych yn fanwl roedd na enw bach gwahanol yn gwahaniaethu un wrth y llall. Y drafferth yw fod yn rhaid datgymalu'r pecyn cyn ffeindio fod yr un anghywir gennyf; o ganlyniad roedd rhaid prynu rasal newydd.

**Heddychwr**

Bu dathliadau yn ddiweddar i gofio am Henry Richard 1812 – 1888.

Mae hi'n 200 mlynedd ers ei eni. Bu Tregaron yn talu teyrnged deilwng iddo gyda darlithoedd ac arddangosfa yn oriel Rhiannon yn y dre. Bu Henry Richard yn brwydro'n galed i sicrhau heddwch rhwng gwledydd a chenhedloedd, ceisio cael pobol i siarad â'i gilydd, a thrafod yn fanwl, cyn rhuthro am arfau a dechrau rhyfel oedd un o'i ddymuniadau. Fel disgybl yn Nhregaron, cyn adeiladu yr ysgol newydd, cynhaliem ein Eisteddfod Gŵyl Ddewi yn Neuadd y Dref. Pob tŷ yn ymdeithio ac ymgynull o flaen y gofgolofn cyn i'r Eisteddfod ddechrau.

Gwnaeth yr Apostol Heddwch waith arbennig yn ei ddydd. Y trueni mawr yw fod dynoliaeth yn araf iawn yn dysgu. Maent yn ddigon parod i wrando ond amharod i weithredu.

Pob hwyl, ***CLONCYN***

# Gohebiaeth Clonc

Ty Cardi, 19 Nottingham Street
Canton, Caerdydd, CF5 1JP
20/04/2012

Annwyl Olygydd,

Teimlaf fod yn rhaid i fi ysgrifennu llythyr i ddangos fy ngwrthwynebiad tuag at y cynllun i newid yr arlwy addysgiadol yn ardal Llambed a'r cyffiniau. Cefais fy addysg gynnar yn Ysgol Gynradd Llanwnnen ac Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan ac nid wyf yn medru deall sut bydd cyfuno ysgolion cynradd Cwrtnewydd, Llanwnnen a Llanwenog yn fuddiol i'r ardal na'r plant.

Yn yr hinsawdd presennol deallaf yn iawn fod problemau ariannol yn gorfodi newidiadau ac ailfeddwl sut i addysgu ein plant ond mae'r cynllun yma i weld yn un amhoblogaidd ac annoeth tu hwnt. Mae Ysgol Gynradd Llanwnnen wedi gwasanaethu'r gymdeithas i safon uchel dros ben a hynny am fwy na chan mlynedd ac mae tair cenhedlaeth o'n nheulu i wedi elwa'n fawr o'r dysgu a gafwyd yno. Dwi'n sicr byddai cyn-ddisgyblion ysgolion Llanwenog a Chwrtnewydd yr un mor gadarn eu cefnogaeth o'u hysgolion hwythau.

Mewn byd sydd yn dioddef yn enbyd o gynhesu byd-eang mae symud i system bydd yn gorfodi bron bob plentyn i deithio cannoedd o filltiroedd pob wythnos ar gyfer ei haddysg i weld yn wrthnysig yn arbennig pan mae adeiladau perthnasol i'w cael yn barod a hynny i nifer fawr ohonynt o fewn pellter cerdded.

Yn y dyddiau yma mae pentrefi a threfi bach y wlad yn aberthu digon yn barod wrth i'w siopau, swyddfeydd post a thafarnau ddioddef dan orthrwm a thrachwant yr archfarchnadoedd a chwmnïau mawr. Byddai gadael i lywodraeth leol ychwanegu i'r dinoethi hyn drwy gau rhan fwyaf o'r ysgolion hefyd yn rhyfygus. Mae'n rhaid i'r Cyngor, o leiaf, wneud ymdrech i esbonio budd ariannol yn newid hyn yn llawer gwell na maent wedi ei wneud hyn yma.

Ydy'r swm o £72,000 y flwyddyn o gynilion ac addewid gan y cynllun yn cynnwys costau teithio'r plant? Ydy'r swm yn cynnwys y taliadau llog ar y swm o £1.9m sydd angen i ehangu Ysgol Cwrtnewydd? Dylai plant oedran ysgol gynradd fynd i ysgol yn y pentref maent yn byw neu o leiaf y pentref agosaf. Mae cyfyngu'r nifer o ysgolion cynradd i un neu ddwy ganolfan fawr yn dangos diffyg gweledigaeth, yn fyr yr olwg ac yn rysáit gaiff ei ddifaru yn y dyfodol. Gobeithiaf bydd ym mater hwn yn cael ei ailystyried cyn gwneud y penderfyniad terfynol.

Yr eiddoch yn gywir, *T Humphreys-Jones*, BA hons MA.

Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno â'r farn a adlewyrchir yn mhob un o erthyglau CLONC.

Cydnabyddir cefnogaeth
Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

# Dyddiadur

ysgrifennydd@clonc.co.uk

**MAI**

4 - Daniel Glyn yn perfformio'i sioe un dyn yng Ngŵyl Gomedi Machynlleth.
5 - Tudur Owen yn diddanu yng Ngŵyl Gomedi Machynlleth.
5 - Rali CFfI Sir Gar ar Gae'r Sioe, Caerfyrddin
6 - Gary Slaymaker yn cynnal noson 'Ystafell Ddirgel' – sydd fel Room 101, ond dim ond ar gyfer pethe Cymraeg yng Ngŵyl Gomedi Machynlleth.
7 - Calan Mai Ysgol Cwrtnewydd yn dathlu 25 mlynedd o gynnal Ras Calan Mai. Am ragor o fanylion cysylltwch â'r ysgol 01570 434273.
9 - Cyfarfod Blynyddol Papur Bro Clonc yn y Talardd, Llanllwni am 7.
11 - Noson Goffi yn Festri Aberduar am 7:00 y.h. Adloniant gan Blant Ysgol Gynradd Llanybydder a Chôr Lleisiau'r Werin. Croeso i bawb. Trefnir gan Bwyllgor Buddianau'r Henoed, Llanybydder.
12 - Gŵyl y Dysgwyr o 10yb tan 4yp yn Llanerchaeron - gweithdai yn y bore a the traddodiadol yn y prynhawn gydag adloniant fel Côr Cyd Aberystwyth, Clwb Clocsio Bro Siôn Cwilt a'r delynores Nest Jenkins.
13 - Rihyrsal Cymanfa Ganu Bedyddwyr Cylch Caio a Llambed ym Methel, Silian am 2.00y.p.
15 - Bingo yng Nglwb Rygbi Llanybydder am 8.00y.h. Elw tuag at Ysgol Feithrin Llanybydder.
20 - Cymanfa Ganu Bedyddwyr Cylch Caio a Llambed ym Methel, Cwm Pedol am 2.30y.p. a 6.00y.h.
26 - Bore Coffi Aelwyd Llanbed am 10.30yp yng Nghapel San Tomos, Llanbed.
30 - Oedfa Chwiorydd Cymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion yn Aberduar Llanybydder am 3 o'r gloch.

**MEHEFIN**

2 - Rali C Ff I Ceredigion ar fferm Llechwedd, Llanwenog
3 - Cymanfa Ganu'r Rali yn Eglwys Llanwenog.
4 - Carnifal Cwmann ar gae'r pentref. Ras hwyl i oedolion a phlant ar y diwrnod. Ras y plant i ddechrau am 3yp a ras 5 milltir yr oedolion i ddechrau am 4yp.
13 - Cymanfa Ganu Gysegredig Annibynwyr Llambed a'r cylch am 5yp yng Nghapel Soar Llanbedr Pont Steffan
16 - Diwrnod Hwyl gyda Sali Mali a chanu yng nghwmni Gwenda Owen yng Nghaeau Glanafon Llanllwni rhwng 11.30y.b – 4.00y.p.
17 - Tri Tenor - Alun Rhys-Jenkins, Aled Hall a Rhys Meirion yn Neuadd y Celfyddydau, Y Drindod Dewi Sant Llambed.
24 – 30 - Wythnos Carnifal Llanybydder.
30 - Diwrnod Hwyl Ysgol Gynradd Llanwenog.

**GORFFENNAF**

14 - Mabolgampau pentref Cwrtnewydd ar gaeau Ysgol Cwrtnewydd.

**AWST**

10 - Sioe Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan.
11 - Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychpant.
18 - Sioe Gorsgoch a C.Ff.I. Llanwenog.
25 a 27 - Eisteddfod Rhys Thomas James Llanbedr Pont Steffan.

# Llanfair

**Clwb Cant**

Dyma ennillwyr mis Ebrill: £20 Graham Overton; £10 Sue Wright; £10 H. Scarf; £10 Bramble Leech; £10 Holly Leech; £5 Marian Roberts; £5 Gerwyn Morgan; £5 Anwen Jones; £5 Mrs Williams, Green Hill; £5 Yola Wilson.

**Gwellhad buan**

Drwg iawn oedd clywed fod Barbara Tucker, Llethr Villa wedi cwympo gan achosi iddi dreulio cyfnod yng nghartref Min Y Môr, Aberaeron. O bob sôn y mae yn gysurus iawn yno ond yn edrych ymlaen i ddod adref yn fuan.

**Nosweithiau Cwis**

Yn ystod y bythefnos ddiwethaf mae cystadlu brwd wedi mynd ymlaen ym mhentrefi Llanfair a Chellan. Pwrpas y nosweithiau hyn oedd i godi arian tuag at Gemau Olympaidd y pentrefi sydd i'w gynnal ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 21ain.

Cynhaliwyd y cwis cyntaf yn Llanfair ar nos Sadwrn, Ebrill 14eg gyda 10 tîm yn cymryd rhan - pedwar o Lanfair a'r lleill o Gellan. Enillwyr y noson hon oedd tîm Maesgwyn o Lanfair a thîm yr Idiots o Gellan yn ail. Cyflwynwyd y darian i'r enillwyr gan Dai Jones, Llanfair Fach, Cadeirydd Pwyllgor Pentref, Llanfair

Cynhaliwyd yr ail gwis yng Nghellan ar nos Sadwrn, Ebrill 21ain gyda 11 tîm yn cymryd rhan, 9 o Gellan a 3 o Lanfair. Yr enillwyr oedd 'Simple Minds' a 'No Hopers' o Lanfair yn gydradd gyntaf, a dau dîm o Gellan yn gydradd ail.Unwyd y ddau dîm llwyddiannus o Lanfair i wneud un tîm ac unwyd enillwyr Cellan i wneud tîm arall a chystadlu yn erbyn ei gilydd. Enillwyr y noson oedd tîm Cellan a enillodd ar y cwestiwn olaf, ar ôl cystadleuaeth agos iawn. Codwyd swm sylweddol tuag at y Gemau Olympaidd. Cyflwynwyd tarian i'r enillwyr gan Y Cynghorwr Odwyn Davies. Cafodd lluniaeth y ddwy noson ei baratoi gan aelodau o'r ddau bentref.

**Dyweddio**

Llongyfarchiadau cynnes iawn i Jonathon Evans, Llanfair Fawr ar ei ddiweddiad i Penny Smith o Kilgetty. Pob dymuniad da iddynt am y dyfodol.

**Beth am y dyfodol?**

Helfa Drysor Nos Wener, Mai 11eg Te Parti y Jiwbili Dydd Mawrth, Mehefin 5ed.

Gŵyl Cwrw Nos Wener 15fed a Dydd Sadwrn 16fed o Mehefin


Alec Page Gof



Gwaith metal o safon i'r tŷ a'r ardd.
*Dewch i drafod eich syniadau.*
Yr Efail, Barley Mow, Llambed.
01570 423955

COMPASS OFFICE SUPPLIES
Am eich holl ddeunydd swyddfa
Uned 12 Stâd Ddiwydiannol Llambed, Heol Tregaron, Llambed.
☎ 01570 422955
🖷 01570 422232

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann
☎ 01570 423921
07867 945174

CANOLFAN ADDURNO
AA
A
Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.
Llyfrau Patrwm, Offer llaw a phwerus, Polion a thraciau llenni, gwasanaeth torri allweddi a pheiriannau cymysgu paent Dulux a Leyland.
*Arbenigedd ar garreg eich drws.*
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156



Cegin *Gareth*
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313
*Blodau*
*Cacennau*
*Dathliadau*
*Partïon*

Cymdeithas Alzheimer's – Arwain yr ymgyrch yn erbyn dementia
Does yr un ohonom yn gallu gwneud popeth, ond gall pawb wneud rhywbeth
**Mae angen gwirfoddolwyr arnom i helpu gyda'r gwasanaethau lleol. Gwirfoddolwyr i sefydlu grwp codi arian, ymgyfeillio, a gan fod llawer o wahanol gyfleoedd gwirfoddoli mae yna rhywbeth i bawb**
Mae 40,700 o bobl â dementia yng Nghymru ac mae'r figwr hwn yn debygol o gynyddu i 43,500 erbyn 2013
Cysylltwch â Gill Morgan – Swyddog Gwirfoddoli ar 01269 845953 / 07715 802632 neu e-bostio :
gillian.morgan@alzheimers.org.uk
Elusen gofrestredig rhif 296645

PLANHIGFA GRANNELL NURSERY
Capel y Groes, Llanwnnen
SA48 7LE
01570 434548
www.grannell-nursery.co.uk
**Planhigion llysiau, lluosflwydd, blodau'r haf a'r gaeaf, perlysiau, coed ffrwythau a mwy!**
Dydd Llun i Ddydd Sadwrn 10yb ~ 5yp
Dydd Sul 10yb ~ 4yp

Cludfwyd Indiaidd
NEHAR



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.
**15% o ostyngiad ar archebion dros £10.00.**
Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn sefydliad indiaidd.
**10 Stryd y Bont, Llambed**
**☎ 01570 422893 / 422175**

# Drefach a Llanwenog

**Ysgol Llanwenog**

Llongyfarchiadau mawr i Chloe Marie Jones ar ennill y drydedd wobr mewn dwy gystadleuaeth gelf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Eryri eleni. Mae hyn yn dipyn o gamp. Da iawn wir.

Croeso cynnes i'r tri disgybl newydd sef Corey Day, Elin Lloyd a Teifi Edwards sydd nawr wedi ymuno â'r dosbarth Cyfnod Sylfaen.

Croeso hefyd i Abigail Gregson fel arweinydd dros dro yng Nghylch Meithrin Gwenog a braf oedd gweld nifer o blant newydd yn dechrau yno hefyd.

Hyfryd yw croesawu Mrs Margaret Evans yn ôl i ddosbarth y Cyfnod Sylfaen. Bydd Margaret yn rhannu cyfrifoldeb y dosbarth gyda Mrs Sioned Mills tan ddiwedd y tymor.

Dydd Gwener, Ebrill 27 ain bydd Roseana Roach a Molly Greenfield yn cynrychioli Cylch Llambed yng nghystadleuaeth rhedeg trawsgwlad Ceredigion sydd i'w gynnal yn Llangrannog. Pob lwc i chi'ch dwy.

Diolch yn fawr iawn i Ficer Suzy Bale sydd yn ymweld â'r ysgol yn wythnosol i gymryd gwasanaethau Crefyddol. Cyflwynwyd stori a neges y Pasg yn hynod effeithiol trwy wasanaethau teimladwy, bywiog a chofiadwy iawn, lle daethpwyd â'r hanes yn fyw i'r disgyblion.

Llongygarchiadau i blant yr adran Iau ar ennill Gwobr Efydd sy'n ddechreuad ar y daith o fod yn Eco Ysgol .

Enillwyr y clwb cant am y misoedd diwethaf yw: Ionawr 1af – Mark Van Ostade; 2il – Vicer Susy Bale; 3ydd - Mandy Davies. Chwefror 1af – Mary Jones (Cellan); 2ail – Shirley Davies (Felin fach); 3ydd – Huw Morgans. Mawrth 1af - Carys Jones (Awelon); 2il - Gwenda Davies; 3ydd - Karin Ayonoadu. Llongyfarchiadau iddynt i gyd.

**Prawf Gyrru**

Llongyfarchiadau i Rhian Milcoy, Llwynteg ar basio ei phrawf gyrru yn ystod y mis. Cymer ofal ar yr hewl fawr!

**Gadael**

Trist iawn yw cofnodi bod Mrs Annie Bowen, Arosfa wedi gadael pentref Drefach a symud lan i Lambed i fyw. Dymuniadau gorau i chi yn eich cartref newydd yn Stryd y Coleg, Llambed.

**Y Gymdeithas Hŷn**

Cychwynnwyd ar gyfres y tripiau haf ar Ebrill yr 11eg, ac ynghanol wythnos o gawodydd mis Ebrill, bendithiwyd y Gymdeithas â diwrnod sych a braf. Taith weddol lleol oedd hon, gan aros gyntaf yng Nghenarth am 'baned ac ymweliad â'r Ganolfan Gwrwgle. Synnwyd pawb fod gymaint o wledydd y byd yn adeiladu a defnyddio cwrwgle, ac roedd yna enghreifftiau ohonynt yn y ganolfan. Treuliwyd tua 45 munud diddorol yn clywed sut mae'r cwrwglau yn cael eu hadeiladu a'u defnyddio, ac hanes nifer ohonynt o gwmpas y byd. Cafwyd cyfle hefyd i weld yr hen Felin flawd wrth ochr y rhaeadr, er nad yw honno yn malu bellach.

Symud ymlaen wedyn i Landudoch, a chael ein tywys o gwmpas safle'r hen Abaty, a chael hanes sut y byddai'r Abaty wedi edrych yn ei gyfnod, a beth oedd trefn bywyd y myneich dros bedair-awr-ar-ugain, - yn cynnal gwasanaethau a chaflawni eu dyletswyddau eraill o ddydd i ddydd.

I ganolfan Pen-dre yn Aberteifi wedyn i weld y gampwaith o 'Gardigan' a grewyd dwy flynedd yn ôl i ddathlu mil o flynyddoedd o hanes y dre. Croesawyd yr aelodau gan Maer tre Aberteifi, Y Cyng. Catrin Miles, a hi a roddodd hanes cynllun y prosiect a'r hanes sut yr aethpwyd ati i'w greu. Trysor i'w weld yn wir.

Wedi cael ychydig amser yn Aberteifi, arhoswyd yn Mhentre-gât am bryd o fwyd blasus a hwyliog yn y New Inn.

Bydd y trip nesaf Dydd Mercher, Mai 9fed yn mynd i Ganolfan Treftadaeth y Rhondda yn Nhrehafod, Pontypridd. Enwau i Yvonne – 480590.

**Eglwys Santes Gwenog.**

Daeth nifer o addolwyr i wasanaeth y Cymun Bendigaid ar Ŵyl bwysicaf yng nghalendar yr eglwys sef Dydd Sul y Pasg. Canwyd cloch yr eglwys gan Jac Evans. Rhoddwyd croeso cynnes ac anerchiad pwrpasol gan ein ficer y Parch Suzie Bale. Darllenwyd y llith Gymraeg gan Tomos Evans, a bu Osian Davies a Ben Lewis yn gyfrifol am y casgliad. Roedd yr eglwys hynafol wedi ei hadduro yn gelfydd iawn gan y gwragedd, a'r cyfan yn creu awyrgylch o ddefosiwn a llawenydd am atgyfodiad yr Iesu. Diolch i'r gwragedd am eu cyfraniadau hael o flodau a rhoi amser i'w gosod.

Cynhelir Festri'r Pasg ar 25ain o Ebrill pryd y disgwylir presenoldeb yr aelodau i ethol swyddogion am y flwyddyn sy'n dilyn. Ar Mai'r 9fed bydd noson gwis gyda chaws a gwin yn yr eglwys fach am 7.30 o'r gloch. Ar y 26ain o Fai cynhelir Ocsiwn mewn pabell ger yr eglwys, gyda lluniaeth ysgafn os dymunir, yn yr eglwys fach. Rhennir yr elw rhwng Tŷ Hafan a Chronfa'r eglwys.

Cofion am bawb sydd yn dioddef anhwylder a'r rhai sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.



Tîm buddugol barnu stoc dan 18 yn niwrnod maes y sir Sioned Fflur, Steffan Jenkins, Daniel Morgans a Guto Jones, Clwb Llanwenog.

Clwb 100. Chwefror – 1. Margaret Thomas, Llechwedd; 2. Kate Bone, Drefach; 3. May Griffiths, Blaenpant

Mawrth – 1. Eirian Griffiths, Gwarcoed; 2. Pauline Roberts Jones, Tynporth; 3. Charlie Butcher, Llanybydder.

**Gwellhad Buan**

Dymunwn adferiad llwyr a buan i John Davies, Bwlchmawr yn dilyn ei lawdriniaeth yn ddiweddar. Gobeithio y byddwch nôl allan ar y fferm unwaith eto yn fuan.

**CFfI Llanwenog**

Gyda'r Pasg rownd y gornel, fe adawodd grŵp o aelodau C.FF. I Llanwenog ar Nos Lun yr 2il o Ebrill i fynd ar daith i Lazer zone Abertawe. Cafodd bob un noson wrth eu boddau ac rwy'n siwr eu bod yn ysu i ddychwelyd yno yn fuan. Nid oedd clwb yr wythnos wedyn oherwydd gŵyl y banc, ond ar nos Lun y 16eg o Ebrill fe aeth y clwb am drip i Genarth, i'r 'Coracles' i nofio.

Llongyfarchiadau mawr i bawb o'r clwb a aeth ymlaen i gynrychioli'r sir yng nghystadlaethau Siarad Cyhoeddus Cymraeg a Saesneg yn Llanelwedd ar y 31 o Fawrth. Roedd Meinir Davies, Sioned Fflur, Carwyn Davies, Bleddyn Jones a Sophie Jones i gyd yn aelodau o dîm a ddaeth yn y 3 uchaf ac hefyd fel unigolion. Llongyfarchiadau enfawr i Elin Jones, Lowri Davies a Gethin Hatcher a ddaeth yn fuddugol fel unigolion ac hefyd fel tîm.

Llongyfarchiadau hefyd i Guto Jones a Daniel Morgans a aeth ymlaen i gynrychioli'r Sir yn niwrnod maes Cymru ar ddydd Sadwrn Ebrill y 14eg yn Aberhonddu, gyda Guto yn dod yn 2il a Daniel yn dod yn y 10 uchaf. Cofiwch os oes gennych unrhyw ddiddordeb mewn ymuno â'r clwb neu eisiau darganfod rhagor am ryw ddigwyddiad ewch ar ein gwefan sef www.cffillanwenog.org.uk

**Llongyfarchiadau**



Llongyfarchiadau i Hanna Davies, Ger-y-nant ar ennill y gystadleuaeth adrodd o dan 12 oed yn yr adran gyfyngedig yn Eisteddfod Capel-y-Groes dros y Pasg. Da iawn ti a phob lwc i ti eto gyda'r cystadlu i'r dyfodol.


ADRAN ac AELWYD yr URDD
LLANBEDR PONT STEFFAN

**Bore Coffi ac Adloniant**

**Eglwys San Tomos (ar y Cwmins)**
**Sadwrn 26 Mai 10.30 - 12.00**
**Agorir gan Elin Jones AC**

Tâl mynediad: £2 plant am ddim
Elw at waith yr Urdd yn lleol a chostau Eisteddfod Eryri

CROESO CYNNES I BAWB



Cyfarfod Blynyddol
CLONC
yn Nhafarn Talardd
Llanllwni

**Nos Fercher**
**9fed Mai 2012**
am 7 o'r gloch.
*Croeso cynnes i bawb*

# Cwmann

**Carnifal**

Mae Carnifal a Mabolgampau'r pentref yn cael eu cynnal ar gae'r pentref ar Ddydd Llun y 4ydd o Fehefin. Brenhines y carnifal am eleni yw Anaite Faulkner, eu morynion bydd Undeg Jones ac Elin Williams, y macwyaid bydd Jamie Griffiths a Leon Hughes a brenhines y rhosod bydd Lowri Rowcliffe.

Thema'r "floats" yw hysbyseb teledu, ac mae'r wobr gyntaf yn £100, yr ail yn £75 a'r trydydd yn £50, felly ewch ati i feddwl am syniadau.

Bydd gorymdaith y carnifal yn dechrau o faes parcio Motorworld am 12.30, ond rhaid ymgasglu yno tua 12.15. Bydd angen i bob cystadleuwyr fod ar y cae erbyn 12.45 a bydd y beirniadu yn dechrau yn brydlon am 1 o'r gloch. Owain a Bethan Jones, Tryweryn, Cwmann a Llion a Beca Russell, Treherbert, Cwmann bydd â'r gwaith caled o feirniadu'r carnifal eleni a diolch iddynt am fodloni i fod yn rhan o gyffro'r dydd.

Braint yw cael croesawu John Rhys Jones, gynt o Y Glyn, Cwmann, ond sydd erbyn hyn yn byw ym Mhencoed, yn ôl atom i fod yn lywydd y dydd, a diolch iddo yntau am fodloni i ymgymryd â'r swydd hon.

Yn dilyn y carnifal bydd cyfle i'r plant gael gwared ar ychydig o egni yn y mabolgampau yn ogystal â gweithgaeddau amrywiol eraill fel y castell bownsio, "Dual Gladiator", stondin hwpla, a'r stociau. Bydd yna ddigon o ddanteithion wedi'u paratoi gan y W.I, yn ogystal â stondin melys a fan hufen iâ, a pha ffordd well o orffen y dydd ond gyda barbeciw. Rhywbeth at ddant pawb gobeithio, felly dewch yn llu.

**Ras Hwyl**

Eleni, mae pwyllgor y carnifal am adfywio hen, hen arferiad o gael ras redeg ar ddiwrnod y carnifal. Flynyddoedd yn ôl, roedd y ras yn dechrau ger Mast Pencarreg a byddent yn rhedeg lawr i gae'r carnifal a oedd bryd hynny yng nghae Dolgwm, drws nesaf i'r Eglwys fach. Ein bwriad eleni yw cynnal ras o ryw filltir o hyd i blant cynradd, ryw 2 filltir o hyd i blant uwchradd hyd at 16 oed, ac yna ras 5 milltir i'r rhai dros 16oed. Rydym yn ffodus iawn o fedru cynnal y ras o dan adain Clwb Rhedeg Sarn Helen a diolch i deulu Tanrhos Cwrtnewydd am eu cyngor a'u cymorth. Bydd rasus y plant yn dechrau mor agos â phosibl i 3 o'r gloch, gyda ras yr oedolion am 4y.p. Gellir cofrestru o flaen llaw trwy ddanfon eich ffurflen gofrestru gyda'ch tâl at Siân Roberts-Jones, Croesor, Cwmann, Llambed, SA48 8ET erbyn 25ain o Fai, neu allwch gofrestru ar y dydd. Bydd ffurflenni ar gael o J.H.Roberts, Llambed a Teify Forge Cwmann, neu allwch lawrlwytho ffurflen o www.cwmann.btck.co.uk/Carnifal . Bydd yna fedalau i bob plentyn bydd yn rhedeg, yn ogystal â gwobrau i'r enillwyr. Dewch i gefnogi!!

**Diolch**

Dymuna teulu'r diweddar May Evans, Fferm Felinfach ddiolch yn ddiffuant i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a amlygwyd iddynt yn ystod eu profedigaeth ar ddechrau'r flwyddyn.

Trosglwyddwyd £540 tuag at gartref gofal Alltymynydd sef cyfanswm o'r casgliad a dderbyniwyd er cof am May Evans. Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd mor hael.

Hefyd, dymuna Kevin a theulu'r diweddar Beryl Doyle, Caradog Vue ddiolch yn gynnes iawn i berthnasau, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu colled. Bu'r cyfan yn gysur, ac yn gynhaliaeth ar adeg mor drist. Diolch hefyd am y rhoddion a dderbyniwyd i Hosbis Tŷ Olwen, Treforys er cof am Beryl.

**Sefydliad y Merched**

Croesawodd Mary Davies, y Llywydd, bawb i'r cyfarfod ar Ebrill 2ail a diolchodd yr aelodau oedd wedi cymryd rhan a dod yn gyntaf yng nghwis blynyddol C.Ff. I.Cwmann. Y ddwy siaradwraig am y noson oedd Eirlys Lloyd a Ffion Lloyd a fu'n siarad am eu gwaith gyda'r Samariaid yng Nghymru. Cafwyd ganddynt hanes y sefydliad oedd wedi dechrau ym 1953 mewn Festri Capel yn Llundain. Erbyn hyn mae yna ddau gant o ganghennau, naw ohonynt yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth, sydd ar gael ddydd a nos, yn dibynnu ar wirfoddolwyr i ddelio a galwadau ffon a negeseuon e-bost, ac hefyd i siarad yn uniongyrchol a phobl yn y dydd.

Diolchodd Gwen Jones iddynt am eu disgrifiad clir a diddorol iawn o'u gwaith sydd mor bwysig i'r gymuned.

Enillwyd raffl y mis gan Joyce Williams. Ar Mai 8fed bydd y gangen yn cwrdd yn Heol Hathren am 6-15y.h i fynd ar daith gerdded i'w threfnu gan Alun Jones.

**Ysgol Carreg Hirfaen**

Cafodd tîm pêl-droed merched Carreg Hirfaen ddiwrnod arbennig ar gaeau Blaendolau, Abertystwyth yn ddiweddar gan ennill Pencampwriaeth Pêl-droed Merched Ceredigion. Yn dilyn llwyddiant yn y gemau grŵp curwyd Llandysul yn y gêm gyn-derfynol. Rhydypennau oedd y gwrthwynebwyr yn y gêm derfynol ac mewn gêm hynod o gyffrous enillodd Carreg Hirfaen o dair gôl i ddim.

Mae'r merched yn awr yn cael y fraint o gynrychioli Sir Ceredigion ym Mhencampwriaethau Cymru ar ddechrau mis Mai. Pob lwc iddynt.

Llongyfarchiadau mawr i Mari Lewis (Blwyddyn 6) a gafodd yr ail wobr yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd am greu gwefan.

Cyn gwyliau'r Pasg bu plant blynyddoedd 3 a 4 yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog am dridiau. Cawsom dywydd bendigedig, gyda'r haul yn disgleirio'n braf arnom. Cafodd y plant amrywaieth o weithgareddau gan gynnwys sgio, gwibgartio, reidio ceffylau, dringo'r wal ddringo, rhaffau hir, nofio a saethyddiaeth. Gyda'r nos bûm yn cerdded lawr i'r traeth a chael ychydig o amser i adeiladu cestyll tywod cyn iddi dywyllu. Roedd y bwyd yn flasus iawn ac roedd yn braf cael rhannu ystafell wely gyda'n ffrindiau.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Lisa Elan Evans, Hafod y Gân, Cae Ram, Cwmann am lwyddo yn ei harholiad piano, Gradd 1 gydag anrhydedd dan nawdd Coleg Cerdd Brenhinol Llundain.

Llongyfarchiadau i Caryl Brynteg am gael ei dewis i gario'r fflam Olympaidd Llundain 2012 yn Nhre Taliesin ar fore Llun, Mai 28.

**Clwb 225 Mis Ebrill**

1. 146, Graham Evans, Fferm Felinfach, Cwmann, 2. 88, Eiddig Jones, Gelli Ddewi, Cwmann, 3. 55, Danny Davies, Brynteify, Cwmann, 4. 176, Paul Jones, Preswylfa, Cwmann, 5. Jean Thomas, Gwlith-y-Wawr, Cwmann, 6. 5, Mr. Eirian James, c/o Mark Lane, Lampeter, 7. 125, Geraint a Meleri Jones, Islwyn, Llambed, 8. 41, Cerdyn Price, Langwm, Lampeter, 9. 212, Eirios Jones, Felindre Uchaf, Cwmann, 10. 196, Sheila Lewis, Brynawel, Cwmann.

**Clwb 125**

1. Miss. Rhian Harries, Llaindelyn, Cellan, 117, 2. Miss. Gwenda Thomas, Tegfan, Cwmann, 114, 3. Mrs. Mary Jones, 41a High Street, Lampeter, 65, 4. Mrs. Yvonne Davies, Cwmbrwyn, Pencader, 123, 5. Mr & Mrs. B Hughes, Ramleigh, Cwmann, 50, 6. Mrs. Heledd Jones, Penrhos, Cwmann, 104, 8. Mr. Edwin Evans, Brynderw, Parc-y-rhos, Cwmann, 4, 9. Mr. Alun Jones, Glanrhyd, Parc-y-rhos, Cwmann, 80, 10. Mr. Gerwyn Morgan, 12 Heol Hathren, Cwmann, 16.

**Ysbyty**

Dymunwn wellhad buan i Edwin Evans, Brynderw yn dilyn llawdriniaeth ar ôl cwymp yn ei gartref.

Da deall fod Sheila Jones, 10 Nantyglyn wedi dod adref o'r ysbyty.

**Cydymdeimlo**

Trist oedd clywed am farwolaeth Beryl Doyle, Caradog View. Cydymdeimlir yn ddwys â'i phriod Kevin a'r teulu yn eu galar. Hefyd â Nan Jones a'r teulu, Glynsawel ar farwolaeth ei mam yn ddiweddar.

**Eglwys Sant Iago**

Ar nos Lun, Mawrth 26ain cynhaliwyd Festri'r Pasg yn yr eglwys dan arweiniad y ficer, yr Hybard Ddr. William Strange. Agorwyd y festri gyda gweddi yna rhoddodd y ficer ei adroddiad gan gynnwys diolch i'r wardeniaid gweithgar a ffyddlon ar swyddogion am eu cefnogaeth hefyd i bawb sydd yn cynorthwyo mewn llawer o ffyrdd drwy gydol y flwyddyn ac yn sicrhau dyfodol ein heglwys. Cafwyd adroddiad y trysorydd a'r ysgrifennydd a'r cyfan yn foddhaol. Diolchodd y ficer iddynt am ei gwaith manwl a chywir – yna aeth ymlaen i ddewis swyddogion am y flwyddyn: Warden y Ficer – Mr. Graham Evans, Warden y Bobl – Mr. Danny Davies, Trysorydd – Mr. Tom James, Ysgrifenyddes – Mrs. Rosa Lloyd.

Ar fore Sul y Palmwydd cafwyd gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid yn yr eglwys dan arweiniad y ficer, yr Hybarch Ddr. William Strange i gofio arwyddocâd Sul y Palmwydd. Gwnaed y darlleniadau gan Mr. Will Davies a Mrs. Sue Brennand. Cafwyd neges bwrpasol gan y ficer. Yn ystod y gwasanaeth bendithiodd y ficer y croesau palmwydd a'u dosbarthu i bawb.

Yn ystod y Garawys eleni, cawsom gyfle fel aelodau a ffrindiau i gwrdd yn wythnosol yn Neuadd Sant Iago dan arweiniad yr Hybarch Ddr. William Strange i drin a thrafod gyda'n gilydd y testun 'Ymuno yng nghenadaeth Duw'.

Ar nos Iau Cablyd pan gynhaliwyd gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid yn yr eglwys dan arweiniad y ficer, yr Hybarch Ddr. William Strange i goffau sefydlu'r Cymun Bendigaid yn y Swper Olaf. Gwnaed y darlleniadau gan Mr. Tom James a Mr. Danny Davies. Yr organyddes oedd Mrs. Ceinwen Evans.

Ar fore dydd Gwener y Groglith, ymunodd rhai aelodau a ffrindiau o eglwys Sant Iago gydag aelodau eglwys Dewi Sant Llanycrwys i gerdded o sgwâr Ffarmers i'r eglwys gan gario'r groes. Cyn dechrau cafwyd gair o weddi gan y ficer ac yna cyfle ar yr orymdaith i fyfyrio. Cafwyd gwasanaeth tawel, bendithiol yn eglwys Dewi Sant o weddïau, emynau a darlleniadau. Diolch i aelodau eglwys Dewi Sant am y cwpanaid te a'r byns blasus – braf roedd addoli gyda'n gilydd. Yn y prynhawn cafwyd gwasanaeth o

# Cwmann

dawelwch a myfyrdod dan arweiniad yr Hybarch Ddr. William Strange am 2 o'r gloch hyd at 3 o'r gloch a chyfle i feddwl ymhellach wrth wrando ar y darlleniadau ac edrych ar ffenestr y croeshoeliad sydd yn eglwys Sant Padrig Pencarreg.

Daeth nifer dda ynghyd i wasanaeth o'r Cymun Bendigaid ar fore Sul y Pasg yn eglwys Sant Iago dan arweiniad yr Hybarch Ddr. William Strange. Croesawodd y ficer pawb i'r gwasanaeth a dymuno Pasg Hapus a bendithiol i bawb a'u teuluoedd wrth i ni gadarnhau neges y Pasg gyda'n gilydd. Gwnaed y darlleniadau gan y ddau warden, Mr. Graham Evans a mr. Danny Davies a chafwyd neges bwrpasol iawn gan y ficer. Yr organyddes oedd Mrs. Ceinwen Evans. Yn cynorthwyo gyda'r cymun roedd y Parchedig Canon Wynzie Richards. Ar ôl cyfnod tywyll y Garawys, braf roedd gweld yr eglwys yn llawn goleuni'r gobaith ac wedi ei haddurno gan flodau'r gwanwyn a gardd y Pasg yn dangos y bedd gwag. Diolchodd y ficer i bawb am bob cydweithrediad a'u parodrwydd i roi cymorth gyda'r addurno.

**Gŵyl Gorawl**

Cynhelir Gŵyl Gorawl eglwysi'r ddeoniaeth yn eglwys Llanllwni ar ddydd Sul, Mehefin 10fed. Gwasanaeth y plant am 2 o'r gloch prynhawn a'r oedolion am 6 o'r gloch yn hwyr. Yr arweinyddes fydd Mrs. Ceinwen Evans. Mae'r ymarferion wedi cychwyn – dewch yn wir i gefnogi'r ŵyl yma er mwyn sicrhau eu dyfodol. Croeso cynnes i bawb.

**Eiriolaeth Iachau**

Ar y pedwerydd nos Sul o bob mis am 6 o'r gloch yn eglwys Sant Iago, cynhelir gwasanaeth dawel, bendithiol iawn o'r cymun bendigaid yn cynnwys 'Eiriolaeth Iachau' – mae croeso i unrhyw un ymuno yn y gwasanaeth yma i weddïo am bobl sydd yn sâl ac mewn unrhyw angen.

**Pasg Bach**

Daeth nifer dda ynghyd ar fore Sul, 15fed o Ebrill i wasanaeth o'r Cymun Bendigaid yn eglwys Sant Iago dan arweiniad y Parchedig Beti Morris. Cafwyd neges gadarn a phwrpasol iawn ganddi yn cynnwys neges gobaith y Pasg – 'Y mae yn fyw'. Aeth ymlaen i ddweud fod yn rhaid cofio fod Sul y Pasg yn digwydd bob Sul wrth gofio'r neges – 'Atgyfododd Iesu yn wir' i fod gyda ni bob amser. Gwnaed y darlleniadau gan Mrs. Ceinwen Evans a Mrs .Ann Davies. Casglwyd gan Mr. Graham Evans a'r organyddes oedd Mrs. Ceinwen Evans. Braf oedd gweld Mrs. Ruthie Williams yn y gwasanaeth ar ôl cael llaw driniaeth. Yn cynorthwyo gyda'r Cymun roedd y Parchedig Canon Wynzie Richards.

# Sarn Helen



Caitlin a Grace Page, a Ffion Quan gyda medalau ar ddiwedd cyfres trawsgwlad Gwent.

Dydd Sul y Pasg roedd ras Teifi 10 gan y clwb yn Llambed. Cystadleuodd cant un deg a thri o redwyr ac y cwrs yn mynd o amgylch Llambed lan i Lanfair Clydogau, Cellan, Cwmann ac yn ôl i'r Clwb Rybgi. David Bruce o Highgate Harriers enillodd y ras mewn 53 munud 31 eiliadau, 2il dynion agored Gareth Green San Domenico RR 58 munud 02 eiliad, 3ydd Dylan Lewis Sarn Helen 61 munud 03 eiliadau, 1af dynion 40 Glyn Price Sarn Helen 59 munud 06 eiliadau, 2il Michael Davies 59 munud 58 eiliadau, a 3ydd Mickey Havard San Domenico RR 60 munud 56 eiliadau. 1af dynion 50 Richard Marks Sarn Helen 61 munud 57 eiliadau, 2il Arwel Lewis Eryri Hariers 62 munud 39 eiliadau, 3ydd Glyn Sansom San Domenico RR 63 munud 38 eiliadau.

Cyntaf yn ras y menywod oedd Jessica Leitch Sarn Helen 66 munud 12 eiliadau, 2il Elizabeth Goodwin-Jones Trots 68 munud 39eiliadau, 3ydd Rachel Garland-Fry Rhondda Valley runners 75 munud 51 eiliadau. 1af menywod 35 Joanne Thatcher Aberystwyth AC 70 munud 15 eilidau, 2il Catharine Bleasdale Trots 74 munud 22 eiliadau, 3ydd Samantha Parsons 79 munud 56 eiliadau, 1af menywod 45 Lyn Green Cardigan RR 70 munud 27 eiliadau, 2il Dawn Kenwright Sarn Helen 73 munud 43 eiliadau, 3ydd Lindy Eynon Trots 73 munud 46eiliadau. Dynion ac menywod Sarn Helen enillodd y timau Glyn Price, Michael Davies, Dylan Lewis a Richard Marks, a'r menywod Jessica Leitch, Dawn Kenwright, Sian Roberts-Jones a Caryl Davies.

Aeth chwech aelod o'r clwb i farathon Llundain, Mark Dunscombe yn gorffen mewn 3 awr 10 munud 02 eiliadau, Carwyn Thomas 3 awr 19 munud 47 eiliad, Jessica Leitch 3 awr 23 munud 22 eiliadau, David Thomas 4 awr 22 munud 59 eiliadau, Gareth Jones 4 awr 42 munud 26 eiliad, a Ormond Williams 4 awr 51 munud 59 eiliad, ac yn marathon Llanelli Steve Homes yn gorffen mewn 3 awr 16 munud a Murray Kisbee 3 awr 39 munud.

Ras nesaf Sarn Helen yw Ras Hwyl Cwrtnewydd ar Ddydd Llun Gŵyl y Banc Mai 7fed- plant i gychwyn am12.45y.p. ac oedolion yn cychwyn am 1.30y.p. Yn dilyn hon ar Mai 20fed ras fynydd 16.5 o filltiroedd Sarn Helen plant am 10.30y.b. ac oedolion 11.00y.b.

# Cwmsychpant

**Eisteddfodau Lleol**

Llongyfarchiadau i holl blant yr ardal am gystadlu yn holl Eisteddfodau'r fro adeg y Pasg ac am ddod â chlod mawr i'r gymuned yma. Roedd eich holl berfformiadau yn goboledig iawn.

**Gymanfa Bwnc**

Yn ystod y mis cynhaliwyd y Gymanfa Bwnc yng nghapel Alltyblaca. Bu gwahanol rai yn rhoi emynau allan a Beca Jenkins fu yn gwneud hynny ar ran Capel y Cwm. Eleni am newid cafwyd cwmni gŵr gwadd arbennig iawn sef Dewi 'Pws' Morris. Bu yn sgwrsio gyda'r plant gan gael pawb i wenu a chwerthin ac roedd pob plentyn wedi 'joio' mas draw yn ei gwmni. Roedd Dewi wedi dathlui ei benblwydd diwrnod cyn y Gymanfa Bwnc ac fe gafodd gerdyn gyda'r plant gyda phob un wedi ei arwyddo ei enw y tu fewn. Diolchodd y Parch Cen Llwyd iddo am ei gyfraniad arbennig iawn i'r oedfa ac i bawb a drodd fewn i'r Gymanfa Bwnc yn Alltyblaca. Wrth yr organ oedd Mrs Ceinwen Roach, Capel y Groes. Gan nad oes festri bellach gan Gapel Alltyblaca fe wahoddwyd pawb i Frongelli drwy garedigrwydd Mrs Sara Humphries Jones i gael te arbenning iawn yno. Diolch iddi am ei charedigrwydd tuag at bawb ar y Sul arbennig yma.


Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad, Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion, Oriel a Gwasanaeth fframio lluniau ayb

Sianti

Uned 2 Monumental Works, Stryd y Fro, Aberaeron
gyferbyn a Banc y Natwest
01545 571510
www.sianti.org

Toriad Taclus

Mae Toriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwâr Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Ruth Thomas a'i Chwmni
Cyfreithwyr
Adeiladau'r Llywodraeth, Heol Pontfaen, Llambed
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk
yn cynnig pob gwasanaeth cyfreithiol
*Apwyntiadau hwyr neu yn eich cartref*

Ymgynghorwyr Yswiriant
*Eryl Jones Cyf*
Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?
Car, lori, fan, beic modur
Yswiriant tŷ/ cynnwys
Teithio
Fferm a busnes
Cyfrifoldeb
Anifeiliaid
Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad
Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: 01570 422401
Ffacs: 01570 422562
Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

FISHERS ARMS
Bwyd cartref ardderchog nos Iau, Gwener a Sadwrn, Prydiau mewn basged ar gael bob nos.
Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig gan Berian a Beverley Wilkins a'u merched.
Cellan, Llambed
01570 422895

# Llangybi a Betws

**Ysgol y Dderi**

Yn ystod yr wythnos cyn gwyliau'r Pasg, aeth pedwar o ddisgyblion Blwyddyn 6 – Ryan, Sam, Niamh ac Esme, gyda Miss Fiona a Mrs Ann ar daith i Norwy, fel rhan o gysylltiadau Ewropeaidd yr ysgol. Cafodd pob un ohonynt amser da a phrofiadau i'w cofio.

Aeth plant a staff blynyddoedd 3,4,5 a 6 ar ymweliad yn ystod yr wythnos hon hefyd ond nid oedd hi'n daith cweit mor bell! Lawr i dde Cymru i weld hen dŷ Tuduraidd Llancaiach Fawr aeth llond dau fws, a phawb wedi mwynhau dysgu a chael blas o fywyd yn Oes y Tuduriaid, yn ogystal â chyfle i fwynhau picnic hyfryd yn yr haul bendigedig.

Hoffwn ddymuno'n dda i Mrs Lynwen Maskell, a fu'n rhan o staff yr ysgol yn y dosbarth Meithrin/ Derbyn am gyfnod, gan ei bod wedi cychwyn ar swydd newydd yn Ysgol Llangeitho erbyn hyn. Pob hwyl iddi.

Braf yw cael llongyfarch rhai o'r disgyblion unwaith eto wrth iddynt brofi llwyddiant mewn gwahanol feysydd. Celf a Chrefft Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd sy'n cael y sylw gyntaf, wrth i ni gael y pleser o gyhoeddi fod Ffion Betts, Blwyddyn 5, wedi ennill y wobr gyntaf am ei chrochenwaith, a Grŵp y Ceirw hefyd wedi ennill cystadleuaeth creu pypedau. Edrychwn ymlaen at weld y darnau gwaith yma'n cael eu harddangos yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, yn Eryri, ym mis Mehefin. Da iawn chi!

Aeth tîmau pêl droed y bechgyn a'r merched i gynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth yr Urdd cyn y gwyliau. Fe chwaraeodd pob un yn arbennig o dda, ond y merched gafodd fwyaf o lwc ar y diwrnod gan gyrraedd rownd y chwarteri. Daliwch ati blant.



Sgïo sy'n cael y sylw nesaf, a Cyffin Thomas o flwyddyn 6. Bu Cyffin yn cystadlu ac yn cynrychioli Cymru'n ddiweddar mewn cystadleuaeth yn Ffrainc. Fe orffennodd yn y 10fed safle allan o 50 mewn un ras, ac yn 26ain allan o 50 mewn ras arall. Erbyn hyn, ar ôl llawer o hyfforddi ac ymarfer, mae e wedi cyrraedd y safon i gystadlu yng nghystadleuaeth y "Pencampwyr Prydeinig" dros y Pasg flwyddyn nesaf. Llongyfarchiadau a dal ati Cyffin!

**Hamdden**

Trefnwyd trip dirgel addysgiadol a diddorol gan Sally Davies ar Ebrill 13eg. Gwelsom dipyn o ardal wledig de Ceredigion cyn cyrraedd yr Amgueddfa Wlân yn Drefach Felindre lle y cawsom groeso cynnes. Roedd tywysydd yno i'n harwain o amgylch y ffatri a chawsom fraslun o hen hanes y lle a'r newidiadau ddiweddaraf a wnaethpwyd ar ôl derbyn arian o'r Loteri. Gwelwyd hefyd y gwahanol beiriannau yn gweithio a chafwyd eglurhad o'r amryw brosesau oedd yn cymryd lle.

Ymlaen wedyn i Waunifor lle y cawsom groeso cynnes a the bendigedig ac fe fu i bawb fwynhau y bwyd blasus. Talwyd y diolchiadau gan Janet Farrow i bawb a fu ynghlwm â'r diwrnod llwyddiannus. Enillwyd y raffl gan Janet Farrow, Barry Williams, Evelyn Jones, Alunda Jones, Ann Bennet, Caradog Jones, Glenys Davies, Gwenda Thomas, Alan Jones, Ann Lewis ac Audrey.

Fe fydd y cyfarfod nesaf ar Fai 4ydd am 2.00y.p. yn Ysgol Y Dderi pan y disgwylir cynrychiolydd o blanhigfa Grannell i'n hannerch.

**Merched y Wawr**

Treuliwyd noson anhygoel yng nghwmni Mrs Janice Jones a'i chynorthwy-ydd. Cafwyd noson fendigedig o arddangosfa eang o grefftwaith yn dangos gwahanol ddulliau o waith llaw. Dangoswyd nifer fawr o amryw eitemau, pob un wedi eu creu yn ddestlus tu hwnt ac yn unigryw gan ddefnyddio nwyddau gwahanol ac yn wledd syfrdanol i'r llygaid. Rhyfeddwyd am yr holl waith cywrain a manwl a'r amynedd.

Diolchwyd yn gynnes iawn iddynt am noson mor gofiadwy ac addysgiadol gan Deborah Jones. Rhoddwyd y raffl gan Jennifer Cairns a Mair Spate. Fe'u henillwyd gan Dwborah Jones, Lettie Vaughan a Janice Jones. I ddiweddu y cyfarfod cafwyd paned o de a bisgedi wedi eu rhoddi gan Glenys Lloyd.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Fercher Mai 16eg pan y cawn ein tywys oddi amgylch tir yr ysgol gan y gofalwr. Fe fydd angen ethol swyddogion newydd am y flwyddyn 2012 – 2013, a syniadau am raglen y tymor nesaf yn y cyfarfod yma.

# Gohebiaeth

Cwmni Da, Cae Llenor,
Lôn Parc, Caernarfon,
Gwynedd LL55 2HH

Annwyl ddarllenwyr,

Oes na ffermwyr o fri yn eich ardal chi?

Bydd y gyfres boblogaidd Fferm Ffactor yn dychwelyd i sgrin S4C yn yr Hydref, ond pwy fydd yn hawlio'r teitl a'r brif wobr eleni?

Rydym yn awyddus i glywed am ffermwyr sy'n gweithio llawn neu'n rhan amser ar y fferm, yn ddynion a merched 18 oed a throsodd – gyda'r brwdfrydedd a'r awch i gystadlu am deitl Fferm Ffactor!

Os hoffech chi gystadlu neu enwebu ffrind neu berthynas cysylltwch â thîm Fferm Ffactor (01286) 685300 neu e-bostio fferm.ffactor@cwmnida.tv

Dyddiad cau: Mai 31, 2012

Yn Gywir

*Tîm Fferm Ffactor*

Annwyl Olygydd,

Ymhen ychydig wythnosau bydd ardal Bro Morgannwg yn croesawu'r Eisteddfod Genedlaethol i hen faes awyr Llandŵ ger Y Bontfaen a Llanilltud Fawr o 4 -11 Awst.

Eleni, mae nifer o gynigion arbennig ar docynnau ar gyfer unrhyw un sy'n ymweld â'r Eisteddfod. Gellir prynu tocynnau Maes dyddiol am bris gostyngol ar ein gwefan – www.eisteddfod.org.uk – neu drwy ffonio 0845 4090 800 – tan 1 Gorffennaf, gydag arbedion o dros 10% ar docynnau unigol.

Os ydych chi'n bwriadu treulio tridiau neu fwy ar Faes yr Eisteddfod, beth am brynu tocyn tridiau am bris deuddydd?

A chofiwch, os ydych chi'n Eisteddfodwr selog, mae'r arbedion a geir drwy brynu tocyn wythnos yn hytrach na thocynnau dyddiol yn sylweddol – hyd at 34%.

Only Men Aloud, Only Boys Aloud, a chriw o blant cynradd yr ardal, Only Vale Kids Aloud, sy'n agor y Brifwyl mewn cyngerdd arbennig. Nos Sadwrn 4 Awst, bydd Karl Jenkins yn arwain y Premiere Prydeinig o'i waith diweddaraf, Beirdd Cymru, gyda Dennis O'Neill, Rebecca Evans a Chôr yr Eisteddfod. Cynhelir y Gymanfa Ganu nos Sul dan arweiniad Euros Rhys Evans.

Nos Lun 6 Awst, byddwn yn dathlu cyfraniad Dafydd Iwan i'r byd adloniant, ac adloniant go wahanol fydd yn y Pafiliwn nos Fawrth, gyda Gala Gomedi yng nghwni Tudur Owen, Ifan Tregaron, Gary Slaymaker, Daniel Glyn, Dewi Pws, Phil Evans, Mr Phormula, Dean ap Johnson ac Arthur Picton. Caryl Parry-Jones sy'n diddanu'r gynulleidfa nos Iau 9 Awst, gan gloi arlwy'r nos.

Edrychwn ymlaen i'ch gweld.

Yn gywir iawn,


*Elfed Roberts* Prif Weithredwr


Ceris Jones
yn trin gwallt yn eich cartref



Torri a sychu, steilo a lliwio, cwrlo a gosod gwallt ar gyfer achlysuron arbennig.
Prisiau rhesymol a
Diwrnod gostyngiad i'r henoed
**Ffoniwch: 07738 492613**
*Cwmann*
*ond yn barod i deithio'r ardal.*

WD Lewis a'i Fab
Masnachwyr Amaethyddol
Agricultural Merchants
Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk
Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



CEGIN GWENOG
Abernant, Llanwenog
**Gwasanaeth arlwyo cyflawn ar gyfer pob achlysur**
- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

*Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi - boed yn fawr neu'n fach*
Mair Hatcher
01570 481230 / 07967 559683

LING DI LONG
**Bwyty Tsieinaidd a Chludfwyd**
13 Stryd y Bont, Llambed
**01570 422009**
Ar agor:
**12:00-14:30 a 17:00-23:00**
Cynigion arbennig bwffe ac amser cinio
Darllenwch ein bwydlen a'n cynigion arbennig ar Facebook

WILLIAMS & BOURNE
CYFREITHWYR.
COMISIYNWYR LLWON
Trosglwyddiadau a phob gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.
**1 Sgwâr Harford, Llambed**
☎ 01570 422206 🖷 01570423540
A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder, Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

# Llanbedr Pont Steffan

**Merched y Wawr**

Daeth y gangen ynghyd yn festri Shiloh ar nos Lun 15ed o Ebrill. Croesawyd pawb gan Morfudd Slaymaker, y Llywydd a chanwyd cân y mudiad i gyfeiliant Janet Evans. Cydymdeimlodd â Margaret Jones ar golli ei brawd yn ddiweddar. Cyflwynodd Morfudd y gwesteion am y noson sef Mary Williams a Mair Jones o Landeilo a fu'n rhoi hanes eu taith i India drwy siarad a dangos ffilm. Cafwyd amser diddorol iawn yn dilyn eu taith i wahanol fannau yn y wlad yn cynnwys dinas Delhi a chofeb Mahatma Gandhi, Agra lle maer' Taj Mahal a Jaipur sy'n enwog fel y "Ddinas Binc" ac hefyd Ahmedabad lle'r oedd cartref Mahatma Gandhi ac sydd yn enwog am "spices" gorau'r byd. Yr oedd pawb wedi mwynhau gweld a chlywed am y Wlad, y plasau hardd a'r adeiladau prydferth ond trist oedd gweld y tlodi mawr oedd yno hefyd.

Diolchodd Gwyneth Morgan iddynt am noson hwylus a diddorol lle'r oedd pawb yn teimlo fel pe baent wedi bod yn rhan o'r daith.

Diolchodd hefyd i Mair Jones, Ann Evans ac Aerwen Griffiths am y te a bisgedi. Enillwyd y raffl gan Glesni Thomas.

Bydd y cyfarfod blynyddol ar Mai 14eg. Hefyd bydd Brenda Morgan yn arddangos "Crefft Siwgr".

**Aelwyd yr Urdd**

Ar y 6ed o Fawrth Steddfod Hwyl oedd pwnc yr aelwyd. I ddechrau croesawodd Janet ein beirniad sef Nia Wyn. Roedd dau dîm yn cystadlu yn yr eisteddfod, tîm Pobl y Llan a thîm Teon. Heb anghofio Geinor a oedd yn cadw trefn ar y ddau dîm. Roedd y ddau dîm yn brwydro yn erbyn ei gilydd mewn cystadlaethau fel Stori a Sain, côr garglo, adrodd dan 5, sgets a meimo. Ar ôl cystadleuaeth agos iawn roedd hi'n amser am y canlyniad. Yn gyntaf roedd Pobol y Llan gyda 39 pwynt a thîm Teon yn dod yn ail gyda 36 pwynt. Diolchodd Elan i Nia ar ddiwedd y noson arbennig iawn.

Noson ffilm oedd ar yr 20fed o Fawrth. Gwelwyd ffilm o'r enw "Mr Deeds" sef ffilm am ddyn yn America sy'n symud i fyw yn Efrog Newydd oherwydd marwolaeth ei dad-cu. Ar ôl i Geinor ddosbarthu'r "popcorn" (a brynwyd gan Janet) dechreuodd y ffilm. Roedd y ffilm yn ddoniol iawn ac roedd pawb wedi mwynhau'r noson llawn hiwmor.

Yn ystod mis Mai bydd yr Aelwyd yn cynnal cyfarfodydd yn amrywio o helfa drysor i weithgareddau yn y Ganolfan Hamdden - am fanylion pellach cysylltwch â Geinor Medi neu Janet.

Pob lwc i Lowri Elen, Meirion a'r parti llefaru yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Eryri ar ddechrau Mehefin. Mae nifer o deuluoedd yr aelodau a'u cefnogwyr yn edrych ymlaen i dreulio ychydig ddiwrnodau yn y Gogledd gan obeithio am dywydd braf nid yn unig i fwynhau'r Eisteddfod ond hefyd i ymweld â nifer o atyniadau amrywiol Eryri fel Gardd Bodnant, Portmeirion, castell Caernarfon ac yn y blaen.

**Diolch**

Dymuna Catherine a'r teulu, Garej Pontfaen ddiolch o waelod calon am bob arwydd o gydymdeimlad drwy gardiau, blodau, rhoddion a dderbyniwyd pan gollwyd chwaer a modryb annwyl ym mherson Nancy yn ddiweddar.

**Cymdeithas Hanes**

Yr Athro David Thorne oedd siaradwr gwadd cyfarfod mis Ebrill, a chroesawyd ef a'r aelodau gan Selwyn Walters, y Cadeirydd. Wedi ymddeol o'i swydd fel Darlithydd yn yr Adran Gymraeg yng Ngholeg y Brifysgol Llambed, mae David Thorne wedi ymddiddori yn Hanes Lleol, yn enwedig yn ei fro yn Llanllwni, ond hefyd ymhellach na hynny fel y dengys ei erthyglau cyson i Clonc – 'Enwau Lleoedd'.

Testun y noson oedd 'Enwau caeau', a'r rhwystredigaeth sy'n dod o geisio dehongli gwreiddiau'r enwau. Mae enw lle yn gwahanu un man oddi wrth y llall, ond mae enw cae yn cyfleu i ba bwrpas yn aml y defnyddiwyd y tir, neu i bwy y perthynau, ac efallai rhyw ddigwyddiad arbennig a gymerodd lle yno.

Traddodiad llafar yn unig yn aml iawn sydd i'r enwau brodorol hyn, heb gofnod amdanynt ar bapur. Er ei bod hi'n bosib dod o hyd i gae penodol wrth ymchwilio i hen fapiau degwm ac ati, dim pob amser y gwelid enw ar gyfer y rhif. Drwy ddefnyddio Cofnodion y Plwy' mae'n bosibl olrhain enw ambell i berson, a hyn yn cysylltu ag hanesyn llafar.

Soniodd am Sion Dafydd Rhys yn yr unfed ganrif ar bymtheg yn casglu hanesion tua 70 o gewri a fu'n byw yng Nghymru, - hanes y rhain wedi cael eu hadrodd gan Y Cyfarwydd yn aml -, a'i throsglwyddo o un genhedlaeth i'r llall. Gwelir enwau a'r gair 'cawr' ynghlwm wrthynt hwnt ac yma.

Wrth ddiolch i David Thorne, dywedodd y Cadeirydd ei bod yn amlwg fod y siaradwr yn ymddiddori'n fawr mewn pori drwy'r archifau, a'i fod mor brysur ag erioed yn y gwaith yma. Dymunwyd yn dda iddo wrth barhau â'i ymchwil.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Mai'r 15fed yn Hen Neuadd y Coleg am 7.30y.h, pan fydd Keith Rees yn siarad am waith a hanes yr Amgueddfa Wlân yn Drefach Felindre. Croeso cynnes i bawb.



Tîm pêl-droed dan 14 Llambed yn ennill twrnament Felinfach gyda un o'r hyfforddwyr Stephen.



Tîm dan 12 Llambed yn ennill twrnament pêl-droed Felinfach gyda'i hyfforddwraig Claire. Yn y llun mae Gwion Edwards, Clwb Abertawe yn cyflwyno'r gwobrau.

**Babi Newydd**

Llongyfarchiadau i Shirin a Ben, Melin Teifi ar enedigaeth eu baban cyntaf sef Tia Lianna ar 18 Mai, wyres fach i Elgan a Rosaline Thomas. Pob dymuniad da i chi fel teulu.

**Noddfa**

Roedd festri Noddfa yn orlawn ar gyfer Swper y Pasg am y drydedd flwyddyn yn olynol a braf oedd gweld teuluoedd cyfan yn bresennol eleni eto. Cyfle oedd hwn i'n hatgoffa beth yw gwir ystyr y Pasg ac ar yr un pryd mwynhau cwmni ein gilydd mewn noson gymdeithasol ac anffurfiol. Croesawyd pawb yn gynnes gan ein Gweinidog y Parch Jill Tomos ac yna clywsom ychydig eiriau o'r Testament Newydd yn cyfeirio at baratoadau gwledd y Pasg. Y darllenwyr yn ystod y noson oedd Margaret, Llinos, Janet, Densil, John, Alwyn, Tudor, Dai, Alun a Derek.. Offrymwyd gras gan Lisa ac Elan cyn ein bod yn cyfranogi o'r prif gwrs ardderchog oedd wedi ei baratoi gan y chwiorydd. Wedyn bu pawb yn dystion i weithred syml Iesu yn golchi traed ei ddisgyblion mewn ffordd effeithiol yng ngofal Llinos a'r plant. Yn dilyn hyn mwynhawyd yr ail gwrs sef dewis o bedwar pwdin chwaethus oedd yn tynnu dŵr o'r dannedd. Ar ôl paned daeth noson hyfryd i ben â'r Gweinidog yn gweinyddu'r cymun. Rhannwyd siocledi bach a sudd afalau ymhlith y plant gan sicrhau eu bod hwythau hefyd yn rhan o'r ordinhad bwysig hon.

Cyn troi tuag adref talodd John ddiolch haeddiannol i'n Gweinidog am ei chyfraniad gwerthfawr, i'r plant a'r aelodau oedd wedi cymryd rhan ac yn olaf ond nid y lleiaf i'r chwiorydd am bryd o fwyd arbennig iawn ac i 'r dynion hefyd am eu cymorth hwythau gyda'r trefniadau. Roedd pawb o'r lleiaf i'r hynaf wedi mwynhau noson fendithiol a phleserus dros ben yn dathlu gorfoledd y Pasg.

**Cydymdeimlad**

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y mis.

**Bedyddwyr**

Cynhelir Cymanfa Ganu Bedyddwyr cylch Caio a Llanbedr Pont Steffan ym Methel Cwm Pedol ar Sul 20 Mai dan arweiniad Mr. Twynog Davies. Cynhelir oedfa'r plant yn y prynhawn am 2.30 a'r oedolion am 6 o'r gloch yr hwyr. Darperir te rhwng yr oedfaon ac estynnir croeso cynnes i bawb.

**Diolch**

Dymuna Gerwyn a Mary Landre ddiolch o galon i bawb am y llu cardiau, blodau, galwadau ffôn ac anrhegion a dderbynasant ar achlysur dathlu eu Priodas Aur. Diolch i'r plant am drefnu'r parti. Bu'n ben-wythnos i'w chofio.

# Pencarreg

**Theatr Ieuenctid yr Urdd Cymru**
Llongyfarchiadau i Sian Elin Williams, Muriau Gwyn, Pencarreg sydd wedi ei dewis fel un o aelodau Theatr Ieuenctid Yr Urdd Cymru. Mae Sian Elin wedi cael rhan flaenllaw yn y sioe newydd sbon sydd wedi ei selio ar record hir Edward H. Dafis, 'Sneb Yn Becso Dam'.
Fydd y sioe yn cael ei pherfformio gan bobl ifanc 15-21 oed o bob cwr o Gymru. Mae'r caneuon yn trafod y tyndra sy'n gwynebu pobl ifanc wrth iddynt ddewis rhwng bywyd y dref a bywyd cefn gwlad, rhwng gwarchod 'yr hen ffordd Gymreig o fyw' a llunio Cymru gyfoes yr unfed ganrif a'r hugain.
Mae'r perfformiadau yn cael ei gynnal yn Eisteddfod Yr Urdd 2012 Eryri, ac ym mis Gorffennaf yn Theatr Y Lyric Caerfyrddin, Sherman Cymru Caerdydd a Phafiliwn Rhyl.

**Ffynnon Claret**
Roeddwn wedi meddwl nifer o weithiau pam fyddai rhywun yn rhoi'r enw 'Claret House' ar ei gartref. Cefais yr esboniad gan Mrs. Annie Thomas y dydd o'r blaen pan fûm yn ymweld â hi yng nghartref bobl hŷn yn Ffair Fach, Llandeilo. Dywedodd bod y tŷ wedi cael ei enwi ar ôl y ffynnon a arferai darddu o'r graig tu ôl iddo. Byddai pobl y pentref yn casglu eu dŵr yno oddi yno i'w yfed ac at eu hanghenion beunyddiol. Dywedodd bod y dŵr yn llawn mineralau ac yn llifo fel gwin iachusol. Rwy'n meddwl nawr sut allaf gael gafael yn y ffynnon yma, alla i neud tro a thracht neu ddwy o'r Clareg yma fy hun! Yn ddiddorol iawn aeth ymlaen i sôn am y ffair arferai gael ei chynnal ar fanc yr Eglwys. Ffair gyflogi oedd hi yn bennaf, ond mae'n debyg bod 'merry go-round' a stondin cnau coco yno hefyd. Diolch i chi Annie am eich sgwrs ac am hêl atgofion am Bencarreg.

**Gwenoliaid**
Ma' nhw nôl! Bore Sul y Pasg, roedd yr haul yn gwenu dros y llyn a whiw dyma wyth o wenoliaid yn gwibio trwy'r awyr fel mellt. Roedd yr amseriad yn berffaith. Gobaith neges y Pasg ac ymweliad cyntaf y wennol yn codi calon eleni eto.

**Gwellhad**
Yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Llanelli dymunwn wellhad llwyr a buan i Herbert Morgans, Rhydowen. Dymuna Herbert ddiolch am y gofal a'r caredigrwydd a dderbyniodd gan y nyrsus tra bu yn yr ysbyty. Dymuna ddiolch i bob un am ddymuno gwellhad buan iddo trwy alwadau ffôn neu drwy anfon cerdyn.

**Adferiad Iechyd**
Dymunwn adferiad iechyd llwyr a buan i Wynford Edwards sydd wedi bod yn cael llawdriniaeth yn Ysbyty Llanelli. Gobeithio y byddi di'n teimlo'n well yn gloi.

# Cwrtnewydd

**Ysgol Cwrtnewydd**
Yn ystod gwyliau'r Pasg bu nifer iawn o'r plant yn cystadlu yn Eisteddfod Capel y Groes a llongyfarchiadau i bob un ohonynt, hefyd llongyfarchiadau i aelodau y parti llefaru a'r parti unsain am gipio'r wobr gyntaf yn yr Eisteddfod.
Cynhaliwyd cyngerdd ar ddechrau'r tymor er mwyn rhannu holl dalentau'r ysgol gyda'r gymuned. Braf oedd gweld y neuadd yn llawn teuluoedd a ffrindiau'r ysgol wrth i'r plant berfformio nifer o eitemau a ddysgwyd yn ystod y tymor cynt. Diolch yn fawr i'r plant, rhieni, hyfforddwyr a'r staff am eu gwaith caled yn ystod y tymor a fu.
Braf yw cael croesawu Malcolm a Terry i'r ysgol bob bore Iau i roi gwersi beicio i blant blwyddyn 5 a 6. Mae'r plant yn mwynhau'r profiad ac yn edrych ymlaen yn hyderus am y sesiynau nesaf.
Bu plant blwyddyn 6 yn ymweld ag Ysgol Uwchradd Llanbedr Pont Steffan am y trydydd diwrnod llawn. Eto cafodd y plant gyfle i gael gwersi Ffrangeg, Technoleg a Gwyddoniaeth. Mae'r pedwar plentyn wedi mwynhau eu profiadau newydd ac yn edrych ymlaen i fis Medi.
Llongyfarchiadau mawr i Cerys Pollock, Owain Jones, Arwel Williams, Zachary Wroe a Carwyn Davies a fydd yn cynrhychioli'r ysgol a chylch Llanbed yng nghystadleuaeth trawsgwlad yr Urdd yn Llangrannog.
Mae'r clwb drama yn mynd o nerth i nerth a braf yw gweld cynnifer o ddisgyblion ysgolion Llanwnnen, Llanwenog a Chwrtnewydd yn ymuno â'i gilydd bob nos Lun. Ar ddiwedd y tymor bydd y plant yn cael cyfle i berffromio'r ddrama.
Dymunwn pob lwc i Sirian Davies wrth iddi hi ddechrau cwrs Cam wrth Gam. Bydd Sirian yn gweithio yn y Cyfnod Sylfaen bob prynhawn gyda'i chwrs.
Croeso cynnes i bawb i Ddiwrnod Calan Mai ar ddydd Llun Mai y 7fed.

**Cydymdeimlad**
Yn ystod y mis collwyd un o drigolion hynaf y pentref. Ers rhyw ddwy flynedd roedd Mrs Annie Mary Rees wedi symud o'i chartref yn Frondes i fyw gyda'i merch Nan yng Nghlynsawel, Cwmann ac roedd clywed am ei marwolaeth, a hynny fisoedd yn unig cyn iddi ddathlu ei phenblwydd yn 90oed yn ergyd fawr i ardal gyfan. Roedd Capel Seion, Cwrtnewydd yn agos iawn i'w chalon ac fe gofir amdani fel un a oedd yn cynorthwyo yn y 'Sale of Work' blynyddol ers nifer fawr o flynyddoedd.
Priefat fu'r angladd yn Amlosgfa Aberystwyth ac fe daearwyd ei llwch ym medd y teulu yng Nghapel Brynhafod Gorsgoch.
Cydymdeimlir yn ddwys felly gyda'r plant, eu teuluoedd hwythau ac hefyd y gor-wyrion i gyd yn eu colled o golli mam, mam-yng-nghyfraith, mamgu a hen famgu annwyl iawn. Mae'r teuluoedd yn ymestyn dros ardal dalgylch CLONC yma yng Nghwrtnewydd, Cwmann, Cwmsychpant, Llanwnnen ac yn Alltyblaca. Felly derbyniwch ein cydymdeimlad dwysaf â chwi fel teulu oll.

**Wyres fach**
Llongyfrachiadau i Jason Evenden a Helen Draycott ar enedigaeth merch fach, Sophia ar ddiwedd mis Mawrth. Wyres fach gyntaf i Anne Evenden a gor-wyres fach gyntaf i Mrs C.J. Davies, Glennydd.

Rhifyn mis Mehefin
Yn y Siopau
**Mehefin 7fed**
Erthyglau, Newyddion
a Lluniau i law erbyn
**Mai 23ain**


Ysgol Cwrtnewydd
yn cynnal
**Diwrnod Calan Mai blynyddol**
ac yn dathlu 25 mlynedd
o redeg y ras hwyl
Llywydd:
Mr Rob Thomas a'r bechgyn
7/5/2012
Stondinau amrywiol,
rhostio mochyn,
rasys hwyl i blant ac oedolion
i ddechrau am 12.30
Dewch yn llu!

Carpedi

Gwyn Lewis
Cyf
Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,

Cegin Coedlannau
'Bwyd cartref ar gyfer pob achlysur'
* Cacennau pen-blwydd gyda llun (ffotograff)
* Bwffe mawr neu fach
* Danteithion i de
* Pwdinau
* Arlwyo ar gyfer pob achlysur

Sirian Davies, Coedlannau Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045

REFLEXOLOGY
Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:
* Blinder / diffyg egni
* Meigryn
* Sciatica
* Irritable Bowel Syndrome
* Menstural problems
* a mwy
Os am ragor o wybodaeth cysylltwch â Carol Rees
01545 590164
07929 559561

Tim Jones

Ffotograffydd
Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
☎ 01570 422644

Oes angen cygnor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-
1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHAU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.
Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chwi gysylltu â ni.
ADVE
ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR
33 Stryd Fawr, Llambed
☎ 01570 422517 🖷 01570 423244

# Ysgol Campws Llanbedr Pont Steffan

**Ffynnonbedr**

Ymfalchïwn yn llwyddiant Charlotte Saunders a fu'n perfformio fel rhan o gôr "Only Kids Aloud" yn Rwsia ac yng Nghanolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd. Hyfryd oedd cael gwrando ar ganu swynol y côr a dilyn eu taith gyffrous ar y teledu.

Bu tîm pêl-droed y merched a'r bechgyn yn nhwrnament Sirol yr Urdd yn ddiweddar a diolch i Mr John a Mrs Costello am eu hyfforddi. Daeth y merched yn agos iawn i fynd i mewn i'r rownd gyn-derfynol a llwyddodd y bechgyn i gyrraedd y rownd derfynol a cholli o un gôl i ddim yn y rownd derfynol - da iawn chi .



Tîm pêl-droed bechgyn Ysgol Ffynnonbedr yn dod yn ail yng nghystadleuaeth Sirol yr Urdd gyda'i hyfforddwr Mr W John.

Daeth Anthony Clark a fu'n cynrychioli Prydain ac yn fuddugol yn y gemau Olympaidd a gemau'r gymanwlad am chwarae badminton yn siarad â disgyblion blynyddoedd 5 a 6. Cafwyd orig ddiddorol yn ei gwmni ac roedd yn agoriad llygad i weld y cyflymdra yr oedd yn medru taro'r "shuttlecock" ar draws y neuadd!



Anthony Clark yn siarad â disgyblion Ffynnonbedr ynglŷn â'i lwyddiant yn y Gemau Olympaidd a Gemau'r Gymanwlad.




Ruth Davies a Grace Page yn derbyn medalau am y pedwerydd safle yn Ras Trawsgwlad y Tair Sir. Hefyd roedd Grace yn ran o dîm buddugol Dyfed yn erbyn Siroedd y De. Da iawn ferched!



Enillwyr Cystadleuaeth Cynllunio pryd o fwyd Ysgol gyda Sir Ceredigion. Cyntaf - Rhys Tom Williams, Ysgol Ffynnonbedr yn ennill camera digidol, Ail- Austin Thomas,Ysgol Ffynnonbedr yn ennill arian. Yn y llun gwelir Mary Jones (Prif gogyddes) a Gill Jones, Swyddog Datblygu bwydlenni Sir Geredigion.

**Yr Ysgol Gyfun**

Trip Sweden: Ar fore'r 17eg o Chwefror, gadawodd chwech o ddisgyblion y Chweched, Mrs. Wyn a Mr Williams ar daith gyfnewid i Sweden.



Treuliodd y criw bach rai dyddiau ym mhrifddinas y wlad ar ddechrau'r daith, lle buont yn ymweld â Neuadd y Dref, yr Amgueddfa Arfau ym Mhalas Stockholm, a'r Amgueddfa Vasa ar ynys Djurgarden. Rhan nesaf y daith oedd teithio i'r gogledd i ymweld â thref ac ysgol Kalix, lle cafwyd croeso mawr gan yr athrawon a'r disgyblion. Yn ystod eu cyfnod yn Kalix, bu'r criw'n ymweld ag amrywiaeth o ryfeddodau, gan gynnwys yr 'Ice Hotel' ag Eglwys Sami yn Jukkasjarvi a cartref Sion Corn yn Rovaniemi. Roedd pawb wedi mwyhau'r daith yn fawr iawn, ac yn sicr yn awchu i fynd yn ôl unwaith eto.




Cystadleuaeth Menter Ifanc: Ym mis Mawrth, bu'r criw Busnes yn llwyddiannus iawn yn rownd Canolbarth Cymru o'r gystadleuaeth 'Menter Ifanc'. Sefydlodd y grŵp gwmni o'r enw 'Wood 'N Slate', cwmni sy'n cynhyrchu nwyddau llechen a phren. Cawsant eu beirniadu ar y cynnyrch, yr adroddiad busnes, y stondin masnach a'u cyflwyniad. Y cam nesaf bydd cystadlu yn rownd Cymru o'r gystadleuaeth ym mis Mehefin. Cynhelir y gystadleuaeth yng Ngholeg Cerdd a Drama, Caerdydd, felly bydd cyfle i aros yn y ddinas dros nos. Pob lwc iddynt!

# Ysgol Campws Llanbedr Pont Steffan

**Ffynnonbedr**

Cynhaliwyd Wythnos Ryngwladol a Masnach Deg yn yr ysgol a chafodd y plant gyfleoedd amrywiol i wneud amryw o weithgareddau diddorol. Bu aelodau Cyngor yr ysgol a'r Cyngor Eco mewn diwrnod o weithgareddau rhyngwladol yn y Brifysgol yn Llambed ac yn cyflwyno Pwerbwynt o'i gwaith. Diolch i Mrs W Howard am drefnu. Cynhelir noson Ryngwladol yn yr ysgol ar ddydd Iau Mai 24 am 6.30 – croeso cynnes i bawb.

Bu'r plant yn ddigon ffodus i gael prynhawn o ddisgo a drefnwyd gan Gyngor y Dre. Rydym yn hynod o ddiolchgar i'r Cyngor am eu haelioni blynyddol.

Llongyfarchiadau i Mrs Emma a Cerith Jones ar enedigaeth merch fach Elin a chwaer fach i Osian ac i Miss Shireen a Ben ar enedigaeth merch hefyd sef Tia. Dymunwn wellhad buan i Mrs Anita Evans a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar.

# Cornel yr Urdd

urdd.org

**NEGES HEDDWCH AC EWYLLYS DA**

Eleni mae Neges Heddwch ac Ewyllys Da Urdd Gobaith Cymru yn 90 mlwydd oed ac ers 1922 mae'r neges wedi bod yn ysgogiad ac yn ysbrydoliaeth i weithgarwch dyngarol a rhyngwladol yr Urdd. Anfonwyd y neges gyntaf gan Y Parch Gwilym Davies o Gwm Rhymni. Roedd yn heddychwr mawr ac yn flaenllaw yn y broses o sefydlu Undeb Cymreig y Cenhedloedd Unedig ac yn ddiweddarach UNESCO. Credai mewn dod â phlant y cenhedloedd ynghyd a phenderfynodd Syr Ifan y dylai'r Urdd ymuno gyda'r fenter o gyhoeddi'r neges er mwyn dileu'r anwybodaeth a'r rhagfarnau a oedd yn bodoli rhwng cenhedloedd y byd. Roedd y neges gyntaf, a anfonwyd mewn 'Morse code', yn gweddïo ar i Dduw fendithio ymdrechion a gwaith dynion da dros y byd a dod â rhyfela i ben. Cafwyd un ymateb gan warchodwr Tŵr Eiffel ym Mharis! Darlledwyd y neges am y tro cyntaf ar y BBC World Service yn 1924 ac erbyn heddiw mae'r neges yn ymddangos mewn 15 iaith ar y we ac yn cyrraedd pedwar ban byd ac mae pob un o'r ieithoedd hynny yn y pecyn hwn.

Yn y 50au rhoddwyd sêl bendith a chyfrifoldeb i'r Urdd dros gyhoeddi Neges Heddwch ac Ewyllys Da yn flynyddol ar Ddydd Ewyllys Da -18 Mai, sef dyddiad y gynhadledd heddwch gyntaf yn yr Hâg yn 1899.

Gan ieuenctid Cymru i ieuenctid y byd...

**Citius. Altius. Fortius.**
**Yn gyflymach. Yn uwch. Yn gryfach.**

Gredwch chi mai bwriad yr Olympiaid cyntaf oedd paratoi dynion ifainc ar gyfer rhyfeloedd? Gyda gweledigaeth dreisgar, edrychwch sut y gall y daliadau cynnar gael eu camddehongli a throi pobl yn arfau yn erbyn ei gilydd.

Er bod rhyfeloedd yn parhau i'n rhwygo, mae'r Olympiaid yn gyfle prin i sbarduno fflam undod rhyngwladol. Ystyriwch dri o ddaliadau'r Olympiaid erbyn heddiw; chwarae teg, gwaith caled a pheidio twyllo. Ychwanegwch y gymdeithas o gannoedd o ddiwylliannau amrywiol, ac wele'r Olympiaid yn rhoi cartref i heddwch. Mae pawb yn sefyll ar y llinell gychwyn gyda'i gilydd; i ddathlu dawn ac i anghofio'n gwahaniaethau.

**Citius. Altius. Fortius**

Bobl ifainc y byd; mae'n rhaid i ni ddefnyddio'r geiriau hyn yng nghyd destun heddwch. Down i benderfyniadau teg, cyflawnwn fwy nag erioed, byddwn yn uned gyda'n gilydd.

Cyhoeddwn Neges Heddwch ac Ewyllys Da yn gyflymach, yn uwch ac yn gryfach nag erioed o'r blaen gan rannu grym ei fflam i bedwar ban byd.

Lluniwyd gan Fforwm Ieuenctid Eryri


C.FF.I. CEREDIGION Y.F.C.
www.yfc-ceredigion.org.uk

**Cinio Dathlu CFfI Ceredigion – 70 oed!**
30ain o Fehefin 2012 ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid am 7yh
Pryd tri chwrs a cherddoriaeth fyw - £25 y pen
Croeso cynnes i bawb!
Gobeithio medrwch ymuno â ni i ddathlu'r garreg filltir bwysig yma.
I archebu lle, cysylltwch â Swyddfa CFfI Ceredigion ar
01545 571 333 cyn gynted â phosib

HYBU CIG CYMRU MEAT PROMOTION WALES
FUW UNDEB AMAETHWYR CYMRU
NFU CYMRU


# O'r Cynghorau Bro



**Cyngor Bro Llanllwni**

Cadeirydd: Emyr Evans, Clerc: Eirlys Davies, Gohebydd y Wasg: Dewi Davies, Cynghorydd Sir: Linda Evans. Cyfarfu'r Cyngor ar 12 Mawrth 2011 yn Neuadd Gymundol Llanllwni.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Estynwyd cydymdeimlad dwys â theulu Glennydd ar farwolaeth mam a mam-yng-nghyfraith a hefyd â Tom Jones ar farwolaeth ei frawd-yng-nghyfraith yn ddiweddar. Llongyfarchiadau hefyd i Dewi Thomas â'r teulu ar enedigaeth ŵyr bach yn ddiweddar.

Plismona - Penderfynwyd ysgrifennu llythyr o ddiolch am eu gwaith ym Mryndulais yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Y Maes Chwarae - Cadarnhawyd bod y maes chwarae â'r adnoddau wedi cael eu harchwilio yn fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Tom Jones.

Bryndulais - Diolchwyd i Linda Evans am ei gwaith i'r gymuned ym Mryndulais yn ystod yr wythnosau diwethaf yn dilyn digwyddiad trist iawn.

Cyflwyno cwpanau - Penderfynwyd y byddai'r canlynol ar y cwpan: "Cyflwynwyd gan Gyngor Bro Llanllwni" ynghyd â'r logo arferol.

Grant Llwybrau Diogel Mewn Cymunedau - Penderfynwyd gwneud cais trwy gydweithio ag Ysgol Llanllwni i gael palmant o Tegfan lawr i Plas Bach, gan fod angen i'r disgyblion gerdded lawr i'r cae chwarae a hefyd er mwyn i breswylwyr Llanllwni allu cerdded i fyny i'r siop yn diogel. Mae angen llwybr yn ogystal o Cwm Awel i Ffynonddrain.

Ceisiadau am gefnogaeth - Penderfynwyd cefnogi Clefyd y Galon Llanybydder, Cynllun Fan Bobi, Gofal mewn Galar.

Y Ginio Flynyddol - Bydd y ginio yn cael ei chynnal yn y Talardd.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Cynhaliwyd cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 10 Ebrill 2012.

Estynwyd cydymdeimlad dwys â Emrys Evans ar farwolaeth ei chwaer-yng- nghyfraith yn ddiweddar sef Mrs Beryl Doyle. Dymunwyd yn dda hefyd i Emrys Evans ar ei ymddeoliad fel Cynghorydd. Y mae wedi bod yn Gynghorydd ers 25 o flynyddoedd.

Roedd cais wedi ei wneud am balmentydd yn y plwyf dan gynllun 'Llwybrau Diogel'.

Awgrymwyd y byddai'n hwylus cynnal diwrnod hwyl yr Ysgol a'r Ysgol Feithrin ar ddyddiad dathlu'r jiwbili. Byddai'r Cyngor Bro yn cyfrannu at lwyddiant y diwrnod

Cafwyd gwybodaeth bod mapiau ffermydd stâd Jervoise (1778) wedi eu darganfod yn Basingstoke. Penderfynwyd y byddai'n fanteisiol cael copïau i'r plwyf.

Diolchodd yr Is-Gadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 14 Mai 2012.

**Cyngor Tref Llambed**

Y Maer: Hag Harris, Clerc: Eleri Thomas, Cynghorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris, Cynghorydd Sir: Ivor Williams. Cyfarfu'r Cyngor ar 29 Mawrth 22012 yn Neuadd yr Eglwys, Llanbedr Pont Steffan.

Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan y Maer. Offrymwyd gweddi gan Margaret Davies-Evans.

Plismona - 1. Nodwyd enghreifftiau o ymddygiad gwrth-gymdeithasol yng nghyffiniau archfarchnad Sainsbury. 2. Cipiwyd cyffuriau. 3. Achosion o dorri ffenestri.

Penderfynwyd cynnal y cyfarfod blynyddol ar 11 Mai 2012 am 7.30. Byddai'r maer yn cael ei arwisgo ar 1 Mehefin 2012.

Bwrdd Iechyd Hywel Dda - Nodwyd nad oedd penderfyniadau wedi'u gwneud eto am drefn y gwasanaethau clinigol tua'r dyfodol.

Dathlu Jiwbili'r Frenhines - Cytunwyd i brynu cwpanau i'r plant sy'n mynychu Ysgol Ffynnonbedr a phlant dan oed ysgol yn ward Llanbedr Pont Steffan.

Cadwyn y Maer - Mae'r darnau rhydd ar y gadwyn wedi'u cysylltu bellach.

Newidiadau i Wasanaethau Arriva - Derbyniwyd amryw o achwynion gan y cyhoedd a phenderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir parthed y diffygion yn yr amserlen.

Newidiadau i Ffiniau Etholaethau Seneddol - Roedd y Cyngor yn bryderus y byddai nifer yr Aelodou Seneddol o Gymru yn disgyn o 40 i 30.

Trawsnewid Llambed - Derbyniwyd llythyr yn diolch am gyfraniad ddiweddar o £20,000. Mae'r cyfleusterau yn y neuadd yn dal i gael eu gwella'n raddol.

# Mis y Papur Newydd

## Colofn Dylan Iorwerth

**Dewis dewis dau ddwrn**

Mewn cyfnod o doriadau ariannol, un o'r peryglon mawr ydi fod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn unswydd er mwyn cwrdd â rhyw angen tymor byr, heb olwg ar y tymor hir.

Mae yna deimlad felly braidd i'r argymhellion i uno tair ysgol plwyfi Llanwnnen a Llanwenog, boed hynny ar un o'r safleoedd presennol neu mewn safle newydd.

Rhyw deimlad o frys a bachu ar gyfle sydd yna o gwmpas y syniad, yn hytrach na chynllunio gofalus a meddwl ymlaen. Beth bynnag fydd y canlyniad yn y pen draw, mae'r broses wedi bod yn ddiffygiol.

Mae'n rhaid i'r bai am hynny orwedd ar ysgwyddau swyddogion y Cyngor Sir a'r glymblaid o Annibynwyr a Democratiaid Rhyddfrydol sydd wedi bod yn rheoli yn Aberaeron – dyw creu newid fyth yn hawdd, ond mae yna ffyrdd gwell o roi cynnig arni.

Y canlyniad ydi fod yna ddadlau ac anniddigrwydd mewn tair ardal sydd wedi cyd-dynnu erioed, ac yn nalgylchoedd tair ysgol sydd wedi bod yn cydweithio'n dda.

Tybed beth fyddai wedi digwydd pe bai'r Cyngor Sir wedi dod i'r ardal a dechrau trafodaeth agored am ddyfodol addysg gynradd yn lleol yn hytrach na gorfodi ateb?

Mae'n ddigon posib y byddai rhieni – a charedigion yr ysgolion yn yr ardal – wedi dod i'r casgliad fod angen rhagor o gydweithio. Efallai y bydden nhw hyd yn oed wedi ystyried uno.

Y gwahaniaeth fyddai fod hynny'n dod o blith pobol y tair ardal eu hunain, yn hytrach na rhywbeth sy'n cael ei wthio arnon ni'n ddisymwth.

Does dim brys mawr o ran dyfodol y tair ysgol; mae ganddyn nhw i gyd ddigon o ddisgyblion i gynnal gweithgarwch ac i gynnig addysg dda. Ac mae ganddyn nhw i gyd gefnogaeth gynnes eu cymunedau. Mae hynny'n golygu ein bod ni, bobol yr ardal, mewn sefyllfa gref i fargeinio.

Os nac oedd y Cyngor Sir yn fodlon rhoi'r cyfle i ni gynllunio addysg ein pobl ifanc mewn ffordd bwyllog, ddoeth, efallai y dylen ni ein hunain fachu ar y cyfle i wneud hynny a gweithio gyda'n gilydd i gael ateb sy'n ein siwtio ni.

Mae biwrocratiaid a gwleidyddion yn aml yn cael eu ffordd gyda phenderfyniadau anodd trwy sicrhau fod pobol wedi'u rhannu. Felly'r peth gwaetha' a allai ddigwydd ym mhlwyfi Llanwnnen a Llanwenog fyddai ein bod yn cwmpo mas. Mi fydd yna syniadau gwahanol a safbwyntiau gwahanol ond mi fyddai gadael i hynny droi'n chwerw yn rhoi'r grym i gyd i Neuadd y Sir.

Addysg y plant ydi'r peth pwysica', felly beth fyddai orau ar gyfer hynny? Cadw'r tair ysgol fel y maen nhw? Mwy o gydweithio, neu un ysgol ardal newydd? Mae yna ddadleuon cry' iawn tros y ddau ddewis cynta' ond, o gymryd y trydydd, mi fyddai angen amodau.

Petaech chi'n sôn am uno, beth fyddai'n gwneud hynny'n dderbyniol? Addysg y plant ydi'r peth pwysica'; felly, yr adnoddau gorau posib. Beth ydi'r adnoddau gorau posib? Rhai sy'n cynnig y cyfleoedd a'r safonau modern y mae ein plant eu hangen ac yn cynnal y berthynas glos gyda'r gymuned o'u cwmpas.

Efallai y byddai'r bobol leol – ac mae addysg yn benderfyniad i gymunedau cyfan, nid dim ond rhieni un cyfnod byr – yn penderfynu bod angen ysgol newydd sbon i wneud hynny, neu fod modd addasu un o'r ysgolion lleol. Yr adnoddau a'r cyfleoedd sy'n bwysig.

Mae cynghorau sir yn cynnal prosesau ymgynghori ond mi wyddon ni i gyd faint o ffars ydi'r rheiny. Beth petai'r tri bwrdd llywodraethwyr, neu efallai'r cynghorau bro, yn dod at ei gilydd i drefnu ymgynghori go iawn? Casglu barn a syniadau am y ffordd orau i gyrraedd ein hamcanion?

Fyddai pawb ddim yn cael eu dymuniad, wrth reswm, ond mi fyddai'n broses llawer mwy creadigol na'r un sy'n digwydd rŵan. Ac, o'i gwneud yn iawn, mi fyddai'n cadw'r ardaloedd gyda'i gilydd, fel y buon nhw erioed cyn yr ymyrraeth yma.


**HYSBYSEBU YN CLONC**

*"Mae mwy a mwy yn gweld gwerth mewn hysbysebu yn y Papur Bro."*

Amcangyfrifir bod tua 3,000 o bobl yn darllen CLONC.

£10.00 am floc bach.

£40.00 am chwarter tudalen.

£60.00 am flwyddyn o flociau bach.

Cysylltwch ag Ysgrifenyddes CLONC am ragor o wybodaeth:

01570 480015 neu ysgrifennydd@clonc.co.uk


# Yn y Gegin gyda Gareth

**Cacennau i'w rhannu a'u rhoi.**

Mae diddordeb mewn pobi cacennau yn cynhyddu gyda'r hen a'r ifanc. Dengys ystadegau fod gwerthiant offer pobi ar gynnydd, ac o ganlyniad mae gwerthwyr y cynhwysion yn cael budd o hyn hefyd.

Does dim gwell na gwynt pobi'r cacennau yn llenwi'r gegin. Peth pleserus yw cynnig cwpaned gyda chynnyrch cartref. Os am anrheg anffurfiol mae cacen bob amser yn hyfryd i'w derbyn.

Felly peth braf yw pobi, rhannu a rhoi. Ymlaen â'r ffedog, a bant a chi.

Pob hwyl wrth bobi,

***Gareth.***

**Cacen Jaffa.**

**Cynhwysion**

140gm / 5owns o fenyn wedi'i meddalu
200gm / 7owns o flawd codi
1½ llwy de o bowdwr codi
200gm / 7owns o siwgwr mân
3 ŵy
6 llond llwy fwrdd o laeth
Zest un oren



i orffen

3 llond llwy fwrdd o sudd oren.
2 owns o siwgwr mân
5gm / 2 owns Siocled

**Dull**

1. Trowch y ffwrn i 180ºC ffan 160º Nwy 4. Rhowch cynhwysion y gacen mewn powlen fawr, cymysgwch am 3 – 5 munud nes yn olau ag ysgafn.
2. Irwch tun torth 1.2 litre a darn o bapur. Llenwch y tun. Pobwch am 40 – 50 munud.
3. Cynheswch y sudd a'r siwgwr mewn sosban, yna tynnwch y gacen o'r ffwrn, arllwyswch y sudd drosti. Gadewch i oeri yn y tun.
4. Toddwch y siocled ac arllwyswch dros y gacen. Gadewch i oeri.

**"Tartennau bach neis"**

**Cynhwysion.**



375 gm o grwst brau (shortcrust)
2 ŵy
175gm siwgwr brown meddal
100gm o resins
1 llond llwy de o fanila
2 owns / 50gm o fenyn meddal
4 llond llwy fwrdd o hufen
2 owns / 50gm o gnau ffrengig(walnuts )

**Dull**

1. Trowch y ffwrn i 190ºC 170ºffan Nwy 5. Rholiwch y toes, torrwch yn gylchoedd a llenwch dau tun 12 twll.
2. Cymysgwch yr wyau a'r cynhwysion eraill, (heb y cnau). Rhowch mewn sosban a chynheswch a chymysgwch am tua 3 – 4 munud nes bod y gymysgedd yn aros ar gefn llwy. Ychwanegwch y cnau, llenwch y crwst toes, pobwch am 15 i 18 munud.
3. Gadewch i oeri ychydig yn y tun cyn eu rhyddhau.

**"Cookies"**

**Cynhwysion**

175 gm o fenyn
175 gm o siwgwr demerara
100 gm / 4 owns o driagl melyn (syrup)
85 gm o flawd plaen
½ llond llwy de o bowdwr soda
25 owns o uwd (porridge)
1 llond llwy de o sinamon
100 gm o fricyll wedi'u torri'n fan
80 gm o llygaeron sych (cranberries)
2 llond llwy fwrdd o ddŵr berw
Un ŵy



**Dull**


1. Trowch y ffwrn i 180º C 160º Ffan Nwy 6. Leinwch 2 dun pobi gyda phapur gwrth saim.
2. Toddwch y menyn, siwgwr a'r triagl mewn sosban. Plygwch y blawd, powdwr soda, uwd, sinamon, bricyll a'r dŵr i mewn i'r sosban. Yna ychwanegwch yr ŵy. Gadewch iddo oeri ychydig.
3. Rholiwch a chreu tua 18 pelen fach. gwasgwch ychydig a'u gosod ar y tun pobi.
4. Pobwch am 15 i 20 munud, yna rhowch nhw ar wifren oeri. Fe gadwant am tua wythnos mewn tun caeëdig.


# Y Ffenest

gan Gerald Morgan



Fis diwethaf, defnyddion ni D, Em ac A7 ar gyfer cân Shane Williams. Ychwanegwn G fwyaf at ein casgliad o gordiau a chanwn Gymru gyda D, A7 a G.




# Clecs y Coleg

**Myfyrwyr YDDS yn cipio Medal Efydd yng Ngwobrau Podiwm Llundain 2012**

Ymgyrch "Palu 'Mlaen" Undeb y Myfyrwyr yw un o'r ychydig brosiectau dethol i ennill Medal Efydd ar gyfer "Dyfarniad Be a Champion am Weithgarwch Llwyddiannus a Arweinir gan Fyfyrwyr" yng Ngwobrau'r Podiwm.

Mae PCYDDS ymhlith mwy na 200 o enwebiadau a gyflwynwyd gan brosiectau sy'n ymwneud â'r Gemau Olympaidd a Pharalympaidd gan ddarparwyr Addysg Bellach ac Uwch ledled y DU.

Cododd yr ymgyrch "Palu 'Mlaen" dros £5,000 i brosiect Maint Cymru i achub coedwigoedd Affrica. Cynhaliodd y myfyrwyr ddiwrnod o weithgarwch ar y campws ar 13 Rhagfyr i fynegi a dilysu eu hymrwymiad i gynaliadwyedd ac addawodd myfyrwyr a staff £1 am goeden i fynd i Kenya. Ymunodd hefyd y Prif Weinidog, Carwyn Jones AC, gan blannu coeden ar y campws.

Meddai Abi Carrington a arweiniodd y prosiect ar ran y myfyrwyr: "Rydym wrth ein bodd o gael ein dewis i dderbyn y wobr hon. Mae cynaliadwyedd yn thema bwysig ar gyfer Llundain 2012 ac yn broblem go iawn i'n cyfnod ni. Gobeithio bellach y bydd modd i ni fwrw ymlaen ymhellach â'r prosiect er mwyn creu etifeddiaeth Olympaidd i'n cymuned ni yma a'r gymuned allan yn Kenya."

Ychwanegodd Dr Mirjam Plantinga, Deon Cyfadran y Dyniaethau yn y Brifysgol: "Rydym yn falch dros ben o'r hyn y mae ein myfyrwyr wedi'i gyflawni ac mae'r adroddiadau cyntaf o Affrica yn dangos eisoes y gwahaniaeth sylweddol y mae'r coed yn gwneud i fywydau pum mil o Kenyaid."

Bydd Undeb y Myfyrwyr yn derbyn Gwobr y Fedal Efydd ym mis Mai mewn dathliad pwysig unigryw sy'n cydnabod y rôl hollbwysig a chwaraeodd colegau a phrifysgolion ledled y DU er mwyn cyflawni Gêmau Llundain 2012.

Mae Gwobrau Podiwm 2012 yn rhan o Wythnos Prifysgolion 2012. Nod Wythnos Prifysgolion 2012 (30 Ebrill - 7 Mai) yw cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o rôl eang ac amrywiol prifysgolion y DU. Hon yw'r drydedd ymgyrch genedlaethol o'i bath a bydd yn cynnwys y tro hwn Gêmau Olympaidd a Pharalympaidd Lundain 2012 yn thema gyffredinol.

# Melinau Gwynt

Bu cryn gynnwrf ar Fynydd Llanllwni dros wyliau'r Pasg eleni. Ymddangosodd treilar ar y mynydd a'i lwyth wedi'i orchuddio â lliain cuddliw. Roedd y cerbyd yn llawn offer a synwyryddion cofnodi soffistigedig: y cyfan, mae'n ymddangos, yn ddibynnol ar baneli solar i'w tanio. A'r cyfan fel petaent wedi ymddangos o unlle ac yn sicr heb ganiatâd y tirfeddianwyr lleol.

Roedd un rhybudd yn siarsio pawb i gadw draw ac un arall yn sôn am ddefnydd peryglus a chynnwys fflamadwy ac yn rhoi rhif argyfwng. Roedd hi'n sychdwr a'r mynydd yn gras. Wedi deall bod perygl a sylweddoli ei bod hi'n gyfnod gwyliau a cherddwyr allan ar y mynydd, aeth pwyllgor porwyr y mynydd ati ar unwaith i geisio lleiahau'r perygl a gwneud y safle'n ddiogel unwaith eto. Llusgwyd y treilar a'i lwyth i loc diogel lle y gellid cadw llygad arno.

Bryd hynny y daeth yn amlwg pwy a osododd y treilar: cwmni RES sy'n awyddus iawn i godi 21 o felinau gwynt ar Fynydd Llanllwni.

Mae'r weithred hon a'r lluniau hyn yn dweud llawer am ofal y cwmni hwn a'u swyddogion am yr amgylchedd a'r gymuned.

John Jones, Talardd a Hengae, yw cadeirydd y mudiad a ffurfiwyd yn Llanllwni i wrthsefyll bwriad cwmni RES. Gellir cysylltu â John am wybodaeth bellach ar 01559 395309 johnallanjones@yahoo.co.uk

## Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw

Cyfeiriad

Cod post

Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET

**Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc**

I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 8 | 2 | 6 | | | | 4 | |
| 9 | | | 1 | | | | | |
| | 1 | | 5 | | | 2 | | |
| | | 4 | | | | 7 | | |
| 6 | 3 | | | 4 | | | 2 | 8 |
| | | 9 | | | | 3 | | |
| | | 6 | | | 3 | | 5 | |
| | | | | | 6 | | | 3 |
| | 9 | | | | 8 | 6 | 7 | |

**Atebion Swdocw mis Ebrill:**

Llongyfarchiadau i Eirlys Davies, Eurfann, Rhydybont, Llanybydder a diolch i bawb arall am gystadlu: Eurwyn Davies, Heol-y-Gaer, Llanybydder; Augusta Davies, Kings Mead, Llanbed; Bethan Williams, Neuadd Fryn, Llanybydder; Haf Hughes, Cwmere, Felinfach; Joan Stacey, Tynwaun, Ffaldybrenin; Shirley Walker, Heol-y-Gaer, Llanybydder; Delyth Edwards, Deluan, Llansawel a Letty Williams, Meinigwynionbach, Gorsgoch.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | 1 | 4 | 9 | 2 | 6 | 3 | 8 | 7 |
| 7 | 8 | 9 | 4 | 1 | 3 | 6 | 5 | 2 |
| 6 | 3 | 2 | 5 | 7 | 8 | 1 | 4 | 9 |
| 9 | 4 | 6 | 8 | 3 | 5 | 2 | 7 | 1 |
| 1 | 2 | 3 | 7 | 4 | 9 | 5 | 6 | 8 |
| 8 | 5 | 7 | 1 | 6 | 2 | 9 | 3 | 4 |
| 3 | 9 | 5 | 2 | 8 | 7 | 4 | 1 | 6 |
| 4 | 6 | 8 | 3 | 9 | 1 | 7 | 2 | 5 |
| 2 | 7 | 1 | 6 | 5 | 4 | 8 | 9 | 3 |

# Llanybydder

**Y Ganolfan Deulu**

Bu Linda o fudiad TWF a Sam Tan yn diddanu'r plant, y mamau ac ambell fam-gu yn ystod degfed pen-blwydd y Ganolfan Deulu yn Llanybydder. Mae'r ganolfan wedi ei hail-addurno yn ogystal â chael tŷ chwarae tu allan. Dymuna'r Ganolfan ddiolch i Gyngor Cymuned Llanybydder ac i'r WI am eu cyfraniadau tuag at y prosiect. Bydd y Ganolfan Deulu ar agor 5 diwrnod yr wythnos ac am wybodaeth bellach cysylltwch â Bronwen ar 01570 480500.

**Bingo**

Cynhelir Bingo yng Nghlwb Rygbi Llanybydder am 8.00y.h. ar y 15fed Mai. Elw tuag at Ysgol Feithrin Llanybydder.

**Wythnos Carnifal**

Mehefin 24 – 'It's a Knockout' yng Nghae Rygbi Llanybydder am 1.00y.p. Mehefin 26 – Bingo yng Nghlwb Rygbi Llanybydder am 8.00y.h. Mehefin 27 – Helfa Drysor yn dechrau o Tanygraig am 6.30y.h. Mehefin 29 – Cwis yn y Llew Du, Llanybydder am 7.00y.h. Mehefin 30 – Carnifal a Mabolgampau yn y Cae Rygbi am 1.00y.p. Disgo a 'hog roast' i ddilyn yn y Clwb Rygbi am 6.00y.h.

**Bedyddwyr**

Cynhelir oedfa arbennig yn Aberduar ar ddydd Mercher 30 Mai am 3 o'r gloch wedi ei threfnu gan Chwiorydd Cymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion.

Bydd yr oedfa yn seiliedig ar Brosiect Mudiad Chwiorydd Undeb Bedyddwyr Cymru wedi ei baratoi gan y Parchedigion Jill Tomos, Judith Morris a Mary Davies. Estynnir croeso cynnes i chwiorydd y Gymanfa. Paratoir paned ar ddiwedd y gwasanaeth.

**Cerdd**

Llwyddodd y canlynol yn eu harholiadau piano o dan nawdd y Coleg Cerdd Brenhinol adeg y Pasg: Gradd 8 Gareth Davies, Llys Enwyn. Gradd 1 Nia Thomas, Llys Neuadd [anrhydedd] Gradd 3 Elin Davies, Tyngrug Isaf. [teilyngdod]

Ysgrifenedig: Gradd 2 Elin Davies Tyngrug Isaf [anrhydedd] Gradd 4 Sioned Fflur Evans, Glantrenfach [teilyngdod]

Llongyfarchiadau i chi gyd, a phob lwc i ti Gareth ym mhrifysgol Morgannwg ym mis Medi.

**Eglwys Sant Pedr**

Ar ôl cwrdd Dydd Gwener y Groglith, daeth criw o aelodau at ei gilydd i addurno'r Eglwys yn barod at Sul y Pasg.

Braf oedd gweld yr Eglwys yn edrych yn brydferth iawn, gyda blodau tymhorol ac addurniadau pwrpasol.

Roeddwn wedi gwneud un peth newydd eleni, sef gosod enwau pobl a oedd wedi marw, pobl roedd yn agos i aelodau'r Eglwys, mewn ffrâm ar un sil ffenest, gyda chlwster o lilies. Roedd hyn yn ffordd dda o gofio am ein hanwyliaid.

Diolch i Diana am drefnu'r blodau a'r addurniadau, ac i bawb am ddod i gynorthwyo.

Dydd Sul y Pasg, cyhaliwyd gwasanaeth y Cymun yn yr Eglwys i ddathlu gyda'n gilydd.

Nos Fawrth, 17eg Ebrill, cynhaliwyd ein 'Easter Vestry' a PCC.

Trafodwyd 'gwasanaeth y gair', sef gwasanaeth newydd rydym yn ei gynnal ar yr ail Sul bob mis. Cytunwyd fod y gwasanaethau yma wedi bod yn llwyddiant, gan fod mwy o aelodau wedi bod yn mynychu'r gwasanaethau yma, yn cynnwys plant.

Ond, byddwn yn dal i weithio ar y gwasanaeth yma, er mwyn ei wella, a hefyd rydym am ddenu rhagor o aelodau hen a newydd i'r cwrdd.

Rhoddodd Y Ficer ddiolch i Diana am ei gwaith yn trefnu a gosod y blodau yn yr Eglwys, ac i Eurwyn, Dan, Lyn, Meurig, Wyn ac Aneurin am dorri coed a gwella cyflwr y palmant.

Diolch i Avril am yr holl waith mae wedi ei wneud yn ei swydd fel Trysoryddes yr Eglwys. Mae'n gwneud gwaith arbennig iawn, ac rydym yn lwcus iawn i'w chael hi fel ein trysoryddes.

Yn y PCC, dewiswyd Susan yn Warden y bobl, ac roedd Suzy wedi cyhoeddi ei bod hi wedi penodi Kay fel 'Warden y Ficer'. Pob lwc i'r ddwy ohonoch wrth ymgymryd â'r swyddi yma.

Wrth i ni groesawu'r ddwy yma fel ein Wardeniaid newydd, rhaid yw i ni estyn ein diolch i Eirwyn, Warden y Ficer, ac i Jean, Warden y bobl, am yr holl waith maent wedi eu wneud i ni dros y blynyddoedd.

Rydym yn sylweddoli faint o waith sy'n gorfod cael ei wneud i redeg Eglwys yn llwyddiannus, felly derbyniwch ein diolch gwresocaf ni.

Penderfynwyd cadw Eleri fel ysgrifenyddes. Diolch iddi am y gwaith mae wedi gwneud, ac yn mynd i barhau gwneud yn y flwyddyn sydd i ddod.

Ar Ddydd Sul 10fed Mehefin, mi fydd y Gŵyl Gorawl yn cael ei chynnal yn Eglwys Llanllwni, am 2.30yp a 6yh. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Kay 480 850.

Dymunwn wellhad buan i bawb sy'n anhwylus a'n cydymdeimlad â'r rhai sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

**Côr Lleisiau'r Werin**

Rydym fel côr wedi cael ychydig o wyliau yn ystod y mis diwethaf, gan i ni gael dwy nos Iau heb ymarferion.

Yn ymarfer Nos Iau, 29ain Mawrth, darllenodd Kay lythyr o ddiolch gan Valmai Higgins, ar ran aelodau Sefydliad y Merched, Peniel.

Yn y llythyr, diolchodd Mrs Higgins i'r côr, am y gyngerdd a gynhaliwyd ar Nos Iau 8fed Mawrth.

Braf oedd clywed eu bod nhw wedi mwynhau'r 'rhaglen amrywiol a'r canu bendigedig'!

Trist oedd clywed fod Ann Bellamy wedi colli anwylyn, sef Mary, Cwm Aur Llanybydder. Cydymdeimlodd y côr â hi a'r teulu.

Hefyd cydymdeimlwyd â Margaret Jones, ein cyfeilyddes, gan iddi golli ei brawd, Eirion Lewis.

Derbyniwch ein cydymdeimlad dwysaf.

Roeddwn yn falch iawn gweld fod Elonwy yn gwella, wedi iddi syrthio wythnos diwethaf!

Rhoddwyd llongyfarchiadau i Sioned Glantrenfach, ar basio ei phrawf theori ac ar ei llwyddiant yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus CFFI.

Hefyd rhoddwyd llongyfarchiadu i Nia, Glydwern, ar ei llwyddiant yn Eisteddfod Capel y Groes dros y penwythnos.

Braf oedd gweld fod Elin, merch Menna, wedi dod yn 3ydd yn y llefaru ac yn 2ail yn yr alaw werin, ar ran Aelwyd Pantycelyn, yn Eisteddfod Sir yr Urdd yn ddiweddar.

Cawsom newyddion hyfryd yn yr ymarfer yma, wrth i ni glywed fod wyres fach newydd wedi cyrraedd i Debbie Rowlands, sef Bethan Mary. Llongyfarchiadau mawr i chi Debbie a'r teulu oll.

Oherwydd fod Margaret yn absennol, fe wnaeth Alwena gyfeilio i'r ymarfer yma.

Diolch i chi Alwena am eich parodrwydd i gyfeilio pan fod angen.

Rydym fel côr yn lwcus iawn i gael arweinyddes a chyfeilyddion sydd yn gweithio'n galed iawn i ni. Diolch i chi.

Yn ymarfer nos Iau, 19eg Ebrill, croesawyd Joan nôl, gan iddi fod draw yn Awstralia yn ymweld â'i mab.

Braf oedd clywed fod Nans yn gwella'n dda wedi ei llawdriniaeth, a'i bod wedi dechrau gyrru eto. Byddwn ni Altos yn falch iawn cael Nans nôl yn y côr yn fuan!

Rhoddwyd llongyfarchiadau i Rhian Bellamy-Powell, ar gael dyrchafiad yn y gwaith. Pob lwc i ti pan yr ei di nol i'r gwaith!

Yn yr ymarfer yma hefyd, rhoddodd y côr longyfarchiadau i Kay, ar ôl i'r Ficer Suzy ddweud wrth y côr, ei bod hi wedi penodi Kay yn 'Warden y Ficer' yn Eglwys Llanybydder.

Rydym yn paratoi ar hyn o bryd tuag at Noson goffi Henoed Llanybydder, sydd yn Festri Capel Aberduar, ar yr 11eg o Fai, ac hefyd tuag at achlysur arbennig iawn. Fe fydd yr hanes yn y rhifyn nesaf.



Mair Thomas, Emyr ac Elain Williams yn cyflwyno siec o £300 i Nicky Cambell, Uwch Gofalwr yng Nghartref Hafan y Waun, Aberystwyth er cof am ei mam sef Lena Williams, gynt o Heol-y-Gaer, Llanybydder.

## Clwb Clonc

**Mai 2012**

£25 rhif 6 :
Mrs Myfanwy Bryce,
20 Penbryn, Llambed.
£20 rhif 352:
Mrs Ann Lewis,
Bronwydd, Llambed.
£15 rhif 20 :
Lena Daniel,
Llys Barcud, Cellan.
£10 rhif 78 :
Mrs Beryl Davies,
Aweldeg, Llambed.
£10 rhif 39 :
Mrs Eifionwy Davies,
Cilmeri, Cwmsychpant.
£10 rhif 493 :
Gwyneth Evans,
Noyadd, Llanfair Clydogau.

# Ffarmers




Yn y llun, gweler Lowri ac Osian Rees ynghyd â Garnet Rees yn cyflwyno siec o £6,300 i Alun Davies o Ambiwlans Awyr Cymru, arian a dderbyniwyd er cof am Arwyn Rees o 'Thomas Rees and Son' Pumsaint, a laddwyd mewn damwain yn y gwaith ar ddiwedd mis Medi 2011. Penderfynodd y teulu gyflwyno'r arian i Ambiwlans Awyr Cymru fel arwydd o ddiolch a gwerthfawrogiad i staff y gwasanaeth am eu cymorth a'u caredigrwydd arbennig ar adeg anodd iddynt fel teulu. Dymuna Lowri, Osian, Garnet, Jean a'r teulu oll ddiolch o galon i bawb am eu rhoddion hael, cardiau, llythyron, galwadau a geiriau caredig o gydymdeimlad. Maent hefyd yn hynod o ddiolchgar am y cymorth a roddwyd, ac sy'n parhau ers colli Arwyn. Diolch.

**Diolch**

Carai Margaret Walters, Maesyderi, ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a chyfeillion am y cardiau, blodau, anrhegion a rhoddion tuag at ei hoff elusen – canser y fron – ar achlysur ei phenblwydd yn bedwar ugain oed. Diolch yn fawr i bawb.

**Cyngerdd Mawreddog**

Cynhaliwyd Cyngerdd Mawreddog yn Neuadd Bro Fana ar yr 21ain o Ebrill dan nawdd Côr Meibion Cwmann i godi arian tuag at Ambiwlans Awyr Cymru ac Ymchwil Canser UK. Croesawyd pawb i'r Gyngerdd gan Cyril Davies, is-Gadeirydd y Côr, cyn iddo drosglwyddo'r awennau i ddwylo medrus Lyn Richards, Maesglas. Llywydd y noson oedd Ceinwen Evans, Felinfach, Cwmann, a chafwyd ganddi araith raenus a diddorol. Mae Ceinwen yn gyn-gyfeilydd i'r Côr, a chanddi ddiddordeb arbennig mewn cerddoriaeth. 'Roedd y Neuadd dan ei sang i wrando ar eitemau gan y Côr dan arweiniad Elonwy Davies, gydag Elonwy Pugh yn cyfeilio, ac 'roedd yna hefyd berfformiadau gan Aled Edwards ac Eleri Owen Edwards, Cilycwm; Kees Huysmans, Tregroes, ynghyd â pharti o fechgyn ifanc lleol o dan arweiniad Irene Williams, Dolaucothi. 'Roedd pawb yn gytûn fod y noson wedi bod yn llwyddiant ysgubol, ac mi fydd yr elw, o dros £1,500, yn cael ei rannu rhwng dwy elusen haeddiannol iawn.

**Gŵyl y Gwanwyn**

Soniwyd yn y rhifyn diwethaf o Clonc am ddigwyddiad arbennig sydd i'w gynnal yn Ffarmers ar y 26ain o Fai, sef 'Gŵyl y Gwanwyn'. Mae'r trefniadau yn symud ymlaen yn hwylus, gyda phawb yn edrych ymlaen at ddiwrnod o ddathlu bywyd cefn gwlad ardal Ffarmers. Bydd y gweithgareddau yn cychwyn am 2.00 gydag arddangosiadau ac arddangosfeydd o grefftau a sgiliau cefn gwlad a'r tŷ. Bydd yna hefyd arddangosfa o fridiau defaid, hen dractorau, gweithgareddau i'r plant, a barbiciw. Bydd Dawnswyr Penrhyd, Rhydaman; Band Arian Rhydaman a 'Jac y Do' hefyd yn ymuno â ni i'n diddori. Llywydd y Dydd fydd Mrs Ray Davies, Peronne – aelod gwerthfawr o Gyngor Neuadd Bro Fana, ac un sydd wedi bod yn weithgar yn y gymuned leol ar hyd y blynyddoedd. Felly, cofiwch roi nodyn yn eich dyddiadur nawr, ac ymunwch â ni am ddiwrnod arbennig! Mae'r cyfan yn bosibl trwy i ni dderbyn nawdd ariannol ar gyfer y digwyddiad. Derbyniwyd nawdd o £1,445.52 drwy gynllun Dathlu Diwylliant sy'n rhan o brosiect Canolbwyntiau Arloesol a gyllidir trwy Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007 – 2013 a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad i deulu Tanyresger yn dilyn marwolaeth Mair, merch Kitty Williams a'r diweddar Brenig Williams. Cofiwn yn arbennig am ei theulu yn Llwynhowell, Llanymddyfri, ac hefyd ei brawd a'r teulu, a'i chwiorydd a'u teuluoedd.

# Gohebiaeth

Annwyl Ddarllenwyr,

Mae'n siŵr y bydd nifer ohonoch yn ymwybodol bod Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn dathlu ei hanner canmlwyddiant eleni. Bydd rhai ohonoch hefyd wedi clywed am ŵyl gerddorol arbennig, '50', sy'n cael ei chynnal yn y Pafiliwn ym Mhontrhydfendigaid ar 13-14 Gorffennaf (mwy o wybodaeth ar y wefan hannercant.com).

Bydd 50 o grwpiau ac artistiaid unigol cerddorol yn cymryd rhan. Un o'r gweithgareddau ymylol fydd arddangosfa arbennig yn dathlu perthynas agos y Gymdeithas â'r sin gerddoriaeth Gymraeg, ac rydym yn lansio apêl am eitemau a allai fod yn ddefnyddiol wrth baratoi'r arddangosfa hon.

Bydd yr arddangosfa'n rhoi sylw i weithgaredd cerddorol y Gymdeithas dros y pum degawd diwethaf ac rydym yn chwilio am bob math o eitemau, boed yn bosteri gigs, lluniau o ddigwyddiadau, crysau T, ffansins neu unrhyw memorabilia arall.

Rydym hefyd yn awyddus iawn i glywed atgofion arbennig pobl o gigs a digwyddiadau adloniadol y Gymdeithas dros y blynyddoedd.

Os oes gennych unrhyw eitemau fyddai'n ddefnyddiol i ni, neu atgofion yr hoffech anfon i ni e-bostiwch arddangosfa@hannercant.com.

Rydym yn ddiolchgar iawn am unrhyw gyfraniad.

Yn gywir iawn,

*Toni Schiavone*

Annwyl Ddarllenwyr,

Mae Matthew Rhys yn ymuno â'r cyflwynwyr Alex Jones, Angharad Mair a Gethin Jones, y seren rygbi Jamie Roberts, DJ Radio 1 Huw Stephens a'r actorion Iwan Rheon a Steffan Rhodri i gefnogi Tafwyl, dathliad wythnos o hyd o'r Gymraeg sy'n dechrau gyda ffair fawreddog rad ac am ddim yng Nghastell Caerdydd ar 23 Mehefin.

Disgwylir dros 8,000 o bobl i fynychu'r ffair, sy'n cynnig gweithgareddau ar gyfer y teulu cyfan, o gerddoriaeth ac adloniant byw i sesiynau coginio gyda'r cogydd Bryn Williams, gweithdai chwaraeon gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru a'r Urdd.

Bydd Meic Stevens, band 'surf rock' Y Niwl a'r gantores Greta Isaac ymhlith yr artistiaid fydd yn perfformio ar ddwy lwyfan gerddoriaeth yn ystod y dydd.

Yn ystod 23-29 Mehefin, bydd nifer o ddigwyddiadau eraill Tafwyl yn cael eu cynnal ledled y ddinas, o gomedi a cherddoriaeth i hanes a'r celfyddydau, gyda'r nod o hyrwyddo'r Gymraeg yng Nghaerdydd.

Ewch i'r wefan – www.tafwyl.org – i gael manylion llawn Tafwyl.

**YSWIRIANT FUW**

**Yswiriant Fferm, Busnesau, Ceir a Thai**

*Arbenigedd lleol*
*Polisïau at bopeth*
*Prisiau cystadleuol*

FUW UNDEB AMAETHWYR CYMRU

Dewch i drafod eich anghenion gyda
**Alan Jacob** 07968 371823 / 01570 481361
neu
**Gwion James** 07980 608337 / 01570 480623
Yn swyddfa **Yswiriant FUW, Sgwar y Mart, Llanybydder**

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol, yng nghyd-destun cyflyngu yswiriant, o dan Rhif Cofrestru 308935

*Mwnci ffwnci*



Brodweithio a Phrintio Dillad.
Darparu Dillad Gwaith a Hamdden.
**Sioned Green** a **Mared Jones**
Nantgwyn, Heol Llanfair Llambed
**☎01570 423135**
07811917799 / 07968821035
mwnciffwnci@hotmail.com

**Gwersi Piano**
gan athrawes brofiadol



Cysyllter ag
**Ann Bowen Morgan**
01570 422413

**DAI MECANIC**

Arbenigwr mewn:
• Gwasanaethu a thrwsio beiciau ATV
• Cynnal a chadw cyfarpar pŵer

**DAI JONES**
**07791 840 500**

Cefn Hafod Gorsgoch
Cwrw Da Cwmni Da
01570 434238 07767 676348

| **Clwb Cyri** | **Cwis** |
|---|---|
| Bob nos Wener 6.30-8.30yh £5 am gyri o'ch dewis, reis, sglodion a bara naan Take Away neu bwyta mewn | Nos Iau cyntaf bob mis 8 o'r gloch Bwyd yn rhan o'r noson Timau: dim mwy na 6 |

# Llanllwni

**Eglwys Sant Luc**

Cafwyd gwasanaeth bendithiol yn Eglwys Sant Luc ar ddydd Gwener y Groglith,dan arweiniad ein Ficer,y Parchedig Suzie Bale.Fe'n harweiniwyd i wahanol safleoedd o fewn yr Eglwys, a thrwy hyn ail greu oriau ola Iesu cyn iddo wynebu'r groes, a'r cyfnod i ddilyn.Yn y Festri cawsom brofiad o'r Swper olaf—drwy ddarlleniadau,a thrwy flasu bara a grawnwin. Symudon wedyn i ardd y Pasg yn sedd y Manor, sef Gardd Gethsemane, a'r bedd gwag. Yn flynyddol mae plant yr Ysgol Sul yn creu gardd hyfryd sy'n darlunio'r tirlun pwrpasol a naws y Gwanwyn. Symudon wedyn at y Fedyddfan-ac i dŷ Peilat. Buom yn gosod cerrig symbolaidd ar y Fedyddfan i, ail greu'r bleidlais o dynged Iesu i farw ar y Groes. O'r fangre hon fe gariwyd y Groes gan Tomos tuag at yr allor gyda phawb yn dilyn. Fe wahoddodd y Ficer bawb i nodi neges fer i Iesu Grist a'i gosod ar y groes. Daeth y Croeshoeliad yn fyw iawn i ni. Braf iawn oedd gweld mamau a'u plant yn rhannu'r darlleniadau yn ystod y gwasanaeth, ac yn ychwanegu at y naws. Roedd y gwasanaeth hwn yn brofiad ysbrydol iawn. Diolch, Ficer. Yn y Neuadd Gymunedol ymunodd pawb i fwynhau paned o de.

**Penblwydd Arbennig**

Dymuna'r teulu longyfarch Eirug Thomas, Ffynnon Newydd ar gyrraedd ei benblwydd yn 60 oed ar y 27ain o Ebrill.

**Undeb y Mamau**

Yng nghyfarfod mis Mawrth ein siaradwr gwadd oedd Jon Meirion Jones, Llangrannog. Mae'r aelodau wedi bod yn ddigon ffodus i gwrdd â Jon Meirion llynedd a hynny yng Nghwersyll y Carcharion, Henllan pan gawsom orig ddiddorol, a bendithiol ar y safle, ac yn enwedig yn yr Eglwys. Y tro hwn dechreuodd ei anerchiad gyda llun annwyl o ferlen yn sefyll ar ochr clogwyn, eiddo Tudfor, ei gefnder, a oedd yn ffermio yno. O'r darlun hwn symudodd i hanes ei deulu, a morwyr enwog y Cilie. Fe'n cipiwyd i bob rhan o'r byd,ac i hanesion cyffrous a diddorol iawn. Diolch i Jon Meirion am fwynhad pur.

Ar Ebrill 10fed roedd yn bleser cael croesawu y Parchedig Dafydd Aeron i'n hannerch. Mae e wedi dechrau ar ei waith o fod yn Offeiriad a Gofal eglwysi Llanddewi, Llangeitho a'r cylch, ac yn amlwg wedi ei alw i'r swydd. Soniodd am ei fagwraeth hyfryd yng Ngheredigion, a'i wahanol swyddi ar y daith. Wrth gwrs roedd rhaid clywed am ei ran fel ficer ym Mhantomeim Felinfach am flynyddoedd, a'r pleser pur a roiodd i filoedd. Mae ganddo frwdfrydedd heintus, ac mae Eglwysi Ceredigion wedi eu cyfoethogi o'i gael fel Bugail. Diolchwyd iddo gan Ifora.

Byddwn yn mynd ar daith i Lanelli ym mis Mai.

**Ysgol Llanllwni**

Bu plant blwyddyn 5 ar 'Ddiwrnod Pontio' yn Ysgol Dyffryn Teifi yn ddiweddar. Cawsant gyfle i wneud nifer o weithgareddau gwahanol.

Mae heol y mynydd dipyn taclusach ar ôl i ni fod yn casglu sbwriel fel rhan o ymgyrch "Go Green, Keep it Clean". Casglwyd wyth bag llawn o sbwriel.

Treuliodd chwech disgybl o'r Adran Iau sef Sinead, Carys, Nia, Cerys, Alwyn ac Ifan benwythnos yng ngwersyll yr Urdd, Llangrannog. Cawsant amser da yn cymdeithasu a chymryd rhan mewn nifer o weithgareddau tu fewn ac allan yn yr awyr agored.

Rydym bob amser yn falch o groesawu'r Ficer Susie atom. Yn ogystal â chynnal gwasanaethau bob bore M ercher buodd, cyn y Pasg, yn treulio cyfnod yn nosbarth y Cyfnod Sylfaen gan ymuno yn y gweithgareddau. Hefyd, un bore ar ôl y Pasg treuliodd gyfnod yn yr Adran Iau yn sôn am wasanaeth cymundeb yn yr eglwys.

Mae Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yn trefnu "Noson Gemau" yn Sied Clynmelyn Nos Iau, 17eg o Fai. Gobeithio daw ysgolion y Cylch i ymuno yn y Decathlon. Bydd yna luniaeth, raffl a stondin boteli. Bydd y noson yn dechrau am 4 o'r gloch ac mae croeso i bawb ymuno â ni.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol am fis Ebrill:- £10 - James Rhodes, 4 Bryndulais. £5 - James, Rhian ac Osian Powell, Erwdeg. £2.50 - Emrys Evans, Ceunant. £2.50 – Rhian Davies, Brynhedd. £2.50 – Alwena Owen, Cwmderi.

**Diwrnod Hwyl**

Mae yna groeso i chi ddod i ymuno yn yr hwyl a'r sbri yng Nghae Glanafon (tu cefn i'r Belle Vue) ar y 16eg o Fehefin 2012. Bydd y diwrnod yn cychwyn am 11.30 ac yn gorffen gyda gêm o rownderi a chriced tua 4yh. Bydd Sali Mali yno i ddarllen storïau a chael cân gyda'r plant yng nghwmni Gwenda Owen a bydd sesiynau celf a chrefft, a sesiynau Drymio Affricanaidd ar gael – felly dewch draw i gael tro. Yn ogystal â'r gweithgareddau yma fydd yna hefyd Castell Bownsio, Twba Lwcus, lluniaeth ysgafn a gwahanol stondinau yn cynnwys cacennau a chyfle i gael eich gwyneb wedi peintio. Bydd Twf a Menter Gorllewin Sir Gâr yn bresennol. Llywyddion y dydd yw Ken a Janet Howells Gwarallt. Rhennir elw'r dirwnod rhwng Ysgol Feithrin Llanllwni ac Ysgol Gynradd Eglwys Llanllwni.



Yn y llun gyda'r cynghorwyr mae Cyng Linda Evans, Cyngor Sir Caerfyrddin; Cyng Tom Bowen, Is-Gadeirydd; Cyng Emrys Evans; Cyng Emyr Evans, Cadeirydd ac Eirlys Davies, Clerc.

Mewn cinio yn y Talardd Arms yn ddiweddar, cafwyd cyfle i ddiolch i Emrys Evans, Llanerch a oedd wedi penderfynu ymddeol ar ôl dros 25 mlynedd o wasanaeth diflino ar ran y gymuned fel aelod o'r Cyngor Bro. Yn anffodus bu farw ei briod Nancy dros flwyddyn yn ôl, ac yn ei chwaer yng nghyfraith, Beryl Doyle, ryw ddeufis yn ôl. Bu'r aelodau yn mynegi eu diolch iddo ac yn dymuno'n dda iddo i'r dyfodol. Diolchwyd i John ac Ann am bryd blasus iawn.

Cafodd yr aelodau canlynol eu hail-ethol i gynrychioli y Gymuned am y blynyddoedd nesaf:Emyr Evans, Cefncoed Isaf; David Thorne, Glennydd; Eric Davies, Neinant; Tom Jones, 32 Bryndulais; Tommy Davies, Greenacres; Dewi Thomas, Blaencwmdu; Eirug Thomas, Ffynnon Newydd a Tom Bowen, Pwllglas.

Hefyd, yn parhau fydd Eirlys Davies, Cwmderi [Clerc] a Dewi Davies, Glanafon [Gohebydd y Wasg]. Y mae angen cyfethol un aelod arall cyn gynted â phosibl.




# Cornel y Plant

I blant dan 8 oed

Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.


Annwyl Ffrindiau,

Helo blant, sut ydych chi? Gobeithio eich bod chi gyd wedi mwynhau eich gwyliau Pasg ac wedi bwyta digon o wyau siocled blasus! Sawl wy gawsoch chi? Gobeithio na fwytaoch chi ormod a chael bola tost!

Wel mi wnaeth nifer ohonoch chi blant fynd ati i liwio patrwm hyfryd ar fy wy arbennig i y mis diwethaf. Da iawn chi gyd. Roeddwn yn hoff iawn o gywion Ellie Lona Gorman o Benparcau a phatrymau lliwgar Lisa Jenkins o Gwmsychpant, Iago Gwyn o Griccieth, Lleucu a Lowri Rees o Gwmsychpant.  Ond yr ŵy Pasg mwyaf deniadol a lliwgar yw un Tomos Davies, 4 Rhydybont, Llanybydder. Llongyfarchiadau mawr i ti Tomos!

Mae lot o sôn ar y teledu am y gemau Olympaidd yn Llundain yn nes ymlaen eleni. Ydych chi'n hoffi rhedeg, nofio neu rwyfo? Wel pan na fyddwch chi'n ymarfer ewch ati i liwio'r llun hwn o ffrind Twm yn ymarfer ei neidio erbyn y 23ain Mai.

Ta ta tan toc.




Enillydd y mis!


Tomos Davies



Enw: Oed:

Cyfeiriad:

# Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne




**Cefn golosg, Golosged Du, Bryngolosgedd a'r coliers coed (42)**

Roedd coed a golosg o fforestydd Cymru wedi eu defnyddio'n ysbeidiol ar gyfer mwyndoddi ers cyn dyfodiad y Rhufeiniaid. Yng nghyfnod y Normaniaid, sut bynnag, bu galw cynyddol am gyflewadau cyson a sylweddol o olosg. Er bod digonedd o goed ar gael, roedd prinder golosg wedi llesteirio twf y diwydiant mwyndoddi rhwng y 13 ganrif a'r 15 ganrif yn Sir Fynwy (haearn), ar gyrrion maes glo de Cymru (haearn a phlwm), yng Nghastell-nedd (copor), yng ngogledd Sir Gaerfyrddin a gorllewin sir Frycheiniog (haearn a phlwm), yng Ngheredigion (plwm), yn Sir Gaernarfon (haearn), ac ar hyd arfordir gogledd-ddwyrain Cymru (haearn a phlwm). Dyma fu prif ganolfannau'r diwydiant haearn a phlwm yng Nghymru am ganrifoedd - ynghyd ag eraill yn siroedd Meirionnydd, Trefaldwyn a Phenfro. A bu golosg yn elfen bwysig yn hanes ffyniant y diwydiant haearn, mewn rhai ardaloedd, tan ddechrau'r 19 ganrif ac wedi hynny.

Cafodd y galw hwn am olosg effaith sylweddol ar goedwigoedd led-led Cymru.Yn wir, roedd rhai o feirdd y 16 ganrif yn cwyno fod cymunedau yn cael eu hamddifadu o goed i adeiladu pontydd, tai ac eglwysi, o goed tân, helwriaeth a bywyd gwyllt, o fes i fwydo moch, o gnau, o leoedd addas i bori geifr. Roedd cryn gwyno hefyd am golli cyfleon a lleoedd addas i garu ag eneidiau hoff cytûn. Ategir tystiolaeth y beirdd gan John Leland (1506-52), ysgolhaig a hynafiaethydd o Sais, sy'n nodi bod y diwydiant plwm yng Nghwmystwyth yn gyfrifol am ddinoethi'r cwm cyfan.

'Coliers coed' oedd un enw ar y llosgwyr golosg traddodiadol; roedd llosgi golosg yn waith tymhorol yn unig a thrigai'r teulu cyfan yn y goedwig dros yr haf mewn cwt neu gaban ar ffurf wigwam. Roedd y golosg yn cael ei gynhyrchu drwy losgi coed yn araf mewn pyllau am gyfnod hir. Ond erbyn diwedd y 18 ganrif daeth dulliau eraill mwy effeithiol o gynhyrchu golosg a darfu am y diwydiant traddodiadol. Erbyn 1840 roedd 'gwaith olew' a sefydlwyd yn Brechfa, Sir Gaerfyrddin yn cynhyrchu golosg ac is-gynnyrch megis naphtha, tar-coed o goed wedi'u cynaeafu'n lleol. Bu 'gwaith olew' Brechfa yn llewyrchus am gyfnod ond caeodd y gwaith yn 1923.

Coffeir y dulliau traddodiadaol o gynhyrchu golosg mewn enwau lleoedd ar draws Cymru. Dyma ddyrnaid o enghreifftiau: Cefn golosg (1782) yn Betws Leucu, Ceredigion; Golosged Du (1545), yn Henllan Amgoed, Sir Gaerfyrddin; Bryngolosgedd (1607), Faenor, Sir Frycheiniog. Y pwll lle y llosgid y golosg a goffeir yn yr enwau Llwyn Gloddaith (1743) yn Llanaber, Sir Feirionnydd; Gloddaeth yn Sir Ddinbych, Gloddaeth Isaf yn Sir Gaernarfon.

Mae 'glo' yn enw arall sy'n cael ei ddefnyddio i ddynodi golosg; a'r diwydiant golosg a goffeir mewn enwau-lleoedd megis Cwm-y-glo, ger Llanrug yn Sir Gaernarfon, a Cae pwll y glo yn Llanidan, Sir Fôn - mannau lle nad oes ddim glo i'w gloddio.

Gwaith sychedig ar y naw oedd gwaith y colier coed a choffeir syched anrhydeddus yr alwedigaeth ar arwyddion tafarndai megis 'The Wood Colliers'.

Y tro nesaf byddwn yn trafod yr enw Tyllgoed.

# Cwmann




Mari Lewis, Ysgol Carreg Hirfaen oedd enillydd Cwis y Pasg yn Llyfrgell Llanbedr Pont Steffan eleni.  Llongyfarchiadau iddi hefyd am ddod yn ail am greu gwefan yng nghystadleuaeth i flwyddyn 6 neu iau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Eryri eleni.

# Cystadlu brwd y Ffermwyr Ieuainc

**CFfI Ceredigion**

Bu mis Ebrill yn fis hynod o brysur i holl aelodau'r mudiad gyda siarad cyhoeddus Cymru, Gala nofio, a diwrnod maes Cymru. Cynhaliwyd cystadleuaeth siarad cyhoeddus Cymru yn Llanfair-Ym-Muallt ar ddydd Sadwrn yr 31ain o Fawrth. Braf oedd gweld cymaint o'r sir wedi teithio yno, a chafwyd diwrnod llwyddiannus. Dyma'r canlyniadau;

Cymraeg – Dan 14 – Tîm yn 2il (Nest o Lledrod, Lleucu o Dihewid a Delyth o Bro'r dderi) gyda Nest yn ennill y Ddarllenwraig orau. Dan 16 – Tîm yn 3ydd (Meleri o Langeitho, Bleddyn a Sophie o Lanwenog).




Dan 21 – Tîm yn 1af (Gethin, Lowri, ac Elin o Lanwenog) gyda Gethin yn ennill y Perfformiad unigol gorau. Dan 26 – Tîm yn 1af (Lowri ac Elen o Droedyraur, Gethin a Huw o Bontsian). Daeth Ceredigion yn 1af yn yr Adran Gymraeg. Canlyniadau Saesneg – Dan 14 – Tîm yn 3ydd (Sioned o Dihewid, Meinir o Lanwenog ac Elen o Bontsian). Dan 16 – Tîm yn 3ydd (Meleri o Langeitho, Carwyn a Sioned o Lanwenog). Dan 21 – Tîm yn 6ed (Morgan a Carwyn o Mydroilyn, Elin o Lanwenog, a Meirian o Langeitho). Dan 26 – Tim yn 6ed (Einir, Gethin a Mererid o Bontsian, Gwawr o Lanwenog a Catrin o Mydroilyn) Gyda Mererid yn ennill y perfformiad unigol gorau.

Ar nos Fercher yr 11eg yn Aberaeron, cynhaliwyd y gala nofio. Dyma'r canlyniadau:

Ras Front Crawl i Ferched 18 oed neu iau - 1af - Mared Davies, Felinfach. Ras Front Crawl i Fechgyn 18 oed neu iau - 1af - Rhydian Jones, Llangwyryfon. Ras Front Crawl i Ferched 26 oed neu iau - 1af - Tracey Davies, Pontsian. Ras Front Crawl i Fechgyn 26 oed neu iau - 1af - Emlyn Lewis, Pennant. Ras Breast Stroke i Ferched 18 oed neu iau - 1af - Mared Jones, Felinfach. Ras Breast Stroke i Fechgyn 18 oed neu iau - 1af - Rhydian Jones, Llangwyryfon. Ras Breast Stroke i Ferched 26 oed neu iau - 1af - Emma Davies, Pontsian. Ras Breast Stroke i Fechgyn 26 oed neu iau - 1af - Emlyn Lewis, Pennant. Ras Gyfnewid 4 Steil - 1af - Llangwyryfon/Pennant. Ras Pel i Ferched - 1af - Felinfach/Pennant. Ras Cot Wen i Fechgyn - 1af – Mydroilyn. Ras Arweinyddion - 1af - Rhys Evans, Troedyraur. Canlyniadau Terfynol - Amseriad Cyflymaf - Emlyn Lewis, Pennant, 3ydd – Troedyraur, 2il – Llanwenog, 1af – Pontsian. Diolch i bawb wnaeth gymryd rhan.

Gwnaeth sawl aelod fynd i Aberhonddu ar gyfer diwrnod Maes Cymru, bu'n ddiwrnod tu hwnt o lwyddiannus gyda Cheredigion yn dod yn fuddugol ar ddiwedd y diwrnod, dyma'r canlyniadau;

Sialens ATV – 1af (Rhodri Sion Organ a Llion Davies, Troedyraur). Ffensio – 1af (Rhodri Hughes, Emyr a Gareth Harries, Llanddeiniol). Diogelwch Fferm Iau – 1af (Delor Rees a Rebecca Reed, Penparc). Dawnsio Stryd – 3ydd(Bro'r Dderi). Barnu stoc dan 18 – 8fed(Ceris James o Fryngwyn, Cadog Davies, Guto Jones a Daniel Morgans o Lanwenog) gyda Guto yn dod yn gydradd 2il fel unigolyn. Barnu stoc dan 26 – 3ydd (Delyth o Dregaron, Dion, Mererid ac Elen o Bontsian) .

Enillwyr lwcus y clwb 200 mis Ebrill oedd 1 - Mary Davies, Llyr yr Haul, Heol y Dwr, Llannon, 2 - Eifion ac Elenid Jones, Talar Wen, Cwmsychpant, Llanybydder, 3 - C.FF.I. Llanddeiniol.

**CFfI Sir Gâr**

Teithiodd dros 500 o aelodau'r C.Ff.I i Faes Sioe Frenhinol Cymru Dydd Sadwrn 31ain Mawrth i gymeryd rhan yn Niwrnod Siarad Cyhoeddus CFfI Cymru a gafodd ei noddi gan un o brif ddatblygwyr egni adnewyddadwy yn y byd, RES.

Mynychodd aelodau o bob cwr o Gymru y diwrnod er mwyn cystadlu yng nghystadlaethau Siarad Cyhoeddus Cymraeg a Saesneg y Mudiad, ac fel arfer yr oedd y gystadleuaeth yn agos ym mhob adran. Yn dilyn diwrnod llawn o gystadlu Ffederasiwn Maesyfed wnaeth ennill yr adran Saesneg gyda Sir Gâr yn 2ail a Ffederasiwn Ceredigion wnaeth ennill yr adran Gymraeg gyda Sir Gâr yn 2ail.

Delyth Davies, CFFI Capel Dewi, Gwennan Campbell a Nia Eyre, CFFI Llanfynydd fu'n cynrychioli y sir yn y gystadleuaeth Darllen Saesneg a daethant yn fuddugol. Diolch yn fawr i Miss Meinir Jones am eu hyfforddi.

Alys John, Mari Kirk, o CFFI Hendy Gwyn a Hanna Thomas a fu'n cynrychioli'r sir yn Siarad Cyhoeddus yr Adran Iau. Mae diolch yn ddyledus i Mrs Jane Thomas a Mrs Llinos Evans am hyfforddi'r Tîm.

Catrin Davies, Harry Evans a Ffion Rees, o C.FF.I Llanfynydd ac Angharad Thomas, C.FF.I Dyffryn Tywi oedd yn cynrychioli'r Sir yn yr Adran Ganol a diolch i Mr Richard Cole am hyfforddi'r pedwar.

Aled Jones a Bethan Griffiths, C.FF.I. Dyffryn Cothi, Iestyn Davies, C.FF.I. Capel Iwan, Angharad Evans, C.FF.I. Capel Dewi a Meinir Jones, C.FF.I Llanfynydd yn cipio'r trydydd safle yn yr adran Hŷn yng nghystadleuaeth y Ddadl. Diolch i Mr Peter Howells am roi o'i amser i hyfforddi'r tîm.

Daeth C.FF.I St Peters yn drydydd yn y Cwis Saesneg gyda Lowri Davies, Anne Marie James, Robert Evans a Simon Evans yn y tîm. Bu Dylan Bowen, CFF.I Capel Iwan, Arwyn Bowen, C.FF.I Penybont a Teleri Jenkins, C.FF.I. Cynwyl Elfed yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth hefyd.

Fe wnaeth Gwennan Campbell C.Ff.I Llanfynydd, Betsan Jones a Luned Jones, C.Ff.I Llanllwni gystadlu yn y gystadleuaeth Darllen Cymraeg. Mrs Marina Davies fuodd yn hyfforddi y tîm Cymraeg a daeth y tîm yn 3ydd.

Menna Williams, C.Ff.I Llanfynydd, Elen Jones, C.Ff.I Penybont a Angharad Haf Thomas, C.Ff.I Dyffryn Tywi wnaeth ennill cystadleuaeth yr adran Iau ac fe wnaeth Elen ennill y wobr am yr unigolyn gorau ar draws yr adran gyfan. Diolch i Miss Gwawr Lewis am hyfforddi'r criw.

Iestyn Owen, C.Ff.I Capel Dewi, Ffion Rees a Catrin Davies, C.Ff.I Llanfynydd wnaeth gystadlu yn yr adran Ganol sef cystadleuaeth Siarad ar ôl cinio ac fe ddaethant yn 2ail. Mr Deryc Rees fuodd wrthi yn hyfforddi'r tri.

Fe wnaeth criw yr adran Hŷn ddod yn 2ail gyda Bethan Griffiths, Aled Jones a Gwennan Evans C.Ff.I Dyffryn Cothi ac Arwyn Bowen, C.Ff. I Penybont yn y tîm. Llongyfarchiadau hefyd i Gwennan Evans ar gael ei enwi'n Unigolyn Gorau yn yr adran. Diolch i Peter Howells am hyfforddi y Tîm yma yn ogystal a'r adran Saesneg.




Bu Mared Tomos, Ben Jones, Angharad Rees a Llinos Thomas, C.Ff I Llangadog a Louise Jones, Aled Bowen, Elen Powell a Carwyn Lewis, C.Ff.I Cwmann yn cystadlu yn y Cwis Cymraeg a llongyfarchiadau i Glwb Cwmann ar ennill y gystadleuaeth ac i Llangadog am ddod yn ail agos iawn iddynt.

# Eisteddfodau Rhanbarth Ceredigion 2012



Parti Llefaru Blwyddyn 6 ac iau - 3ydd Adran Llanbed.



Ymgom Blwyddyn 6 ac iau - 3ydd Ysgol y Dderi.




Buddugwyr Celf a Chrefft Sirol yr Urdd o Ysgol Ffynnonbedr.



Dawns Werin Blwydyn 4 ac iau - 2il Ffynnonbedr Ysgol Campws Llanbed.



Parti Deulais Blwyddyn 6 ac iau - 2il Ffynnonbedr Ysgol Campws Llanbed.



Parti Unsain Blwyddyn 6 ac iau - 1af Adran Llanbed.



Dawns Werin Blwyddyn 6 ac iau - 1af Ffynnonbedr Ysgol Campws Llanbed.



Grŵp Llefaru Blwyddyn 7, 8 a 9 i Ddysgwyr - 1af Ysgol Gyfun Campws Llanbed.